PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 426 | Chwefror 2020



Beiciau gwaed Cymru yn y Garn t.11



Tywysydd Parêd 2020 t.13



Bwyty'n cefnogi'r Eisteddfod 2020 t.4

## Cyfarfod arwr




Plant Penrhyn-coch efo Pedro Pasculli ... un o gyd chwaraewyr Maradona sy'n reolwr Clwb Pêl-droed Dinas Bangor erbyn hyn

## Pedair cenhedlaeth



**Pedair cenhedlaeth** – Ddiwedd 2019, daeth y Parchg Ifan Mason-Davies yn hen dad-cu i ddwy or-wyres. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, daeth aelodau pedair cenhedlaeth o'r teulu at ei gilydd. Fe'u gwelir yn y llun uchod. Yng nghanol y llun mae Ifan a'i ferch Gwawr. Ar ochr chwith y llun mae Lowri, merch Gwawr a mab Gwawr, Aron, sydd ar dde eithaf y llun. Gwenan Sara, merch Lowri, sydd ym mreichiau Ifan ac Erin Lowri, merch Aron sydd ym mreichiau Gwawr.

## Llyn newydd lleol





Lluniau dynnodd Jackie Willmington ar daith gerdded o Bow Street heibio Llangorwen a Chlarach rhwng stormydd. Ymddengys fod afon Clarach wedi gorlifo a chreu llyn dros dro. Gweler hefyd tudalen 15.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mawrth**
Deunydd i law: Mawrth 6
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 18

**CHWEFROR 19** Nos Fercher Ioan Lord Gweithfeydd mwyn Cwm Rheidol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**CHWEFROR 21** Nos Wener Noson yng nghwmni Rhiain Bebb.s Cymdeithas Lenyddol y Garn yn Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch.

**CHWEFROR 21** Nos Wener Al Lewis: Te yn y grug yn y Neuadd Fawr am 8.00

**CHWEFROR 24** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ail agor ar ôl hanner tymor

**CHWEFROR 25** Nos Fawrth Ynyd Noson Grempog ac Adloniant yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor, am 7.00

**CHWEFROR 29** Dydd Sadwrn Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth am 13.00. Arweinydd: Meirion Appleton

**CHWEFROR 29** Nos Sadwrn Hwyl Ddewi 2020 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont; Cawl a Chân yng nghwmni Bois y Gilfach; gweinir cawl am 6.30; adloniant 7.30. Tocynnau: £10 i oedolion; £4 i blant ysgol. Rhennir yr Elw â Chronfa Ceulanamaesmawr Eisteddfod Ceredigion 2020

**29 CHWEFROR** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Clwb Golff y Borth ac Ynys-las am 7.30. Siaradwr gwadd: Lyn Ebenezer. Tocyn: £20 Tocynnau ar gael o'r bar neu gan yr Is-Lywydd, Nans Morgan.

**MAWRTH 1** Pnawn Sul Te Cymreig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gydag adloniant gan blant Ysgol Penrhyn-coch rhwng 2.00 - 4.00 Tocynnau: £5 Elw i gronfa Trefeurig Apel Eisteddfod Genedlaethol 2020

**MAWRTH 2** Nos Lun Ail ran sgwrs (yn Saesneg) gan Alison Palmer ar stad Plas Gogerddan yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 19.30

**MAWRTH 11** Nos Fercher Cwis ac ocsiwn yn Neuadd Rhydypennau am 7.30. Yr elw at Apêl Tirymynach, Eisteddfod Ceredigion. £3 y pen, i gynnwys paned a phice bach. Croeso cynnes iawn i bawb. Yr elw at Apêl Tirymynach, Eisteddfod Ceredigion.

**EBRILL 4-5** Dyddiau Sadwrn a Sul Twrnament Pêl-droed Eric & Arthur Thomas, Penrhyn-coch

**EBRILL 24-25** Nos Wener a dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch










Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ionawr

**£25** (Rhif 261 ) Wynne Melville Jones, Y Berllan, Llanfihangel Genau'r Glyn
**£15** (Rhif 132) Shirley Rowlands, 42 Tregerddan, Bow Street
**£10** (Rhif 76) R a G Dobson, Dorlan, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher, Ionawr 15
Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

## 30 MLYNEDD YN OL



Paratowyd pendant ar ruban i Gadeirydd Cyngor Cymuned Trefeurig ei wisgo. Ruth Davies, Darren Villa, Trefeurig, sydd yn wneuthurwr tlysau a gemau a wnaeth y pendant hardd sydd wedi ei orchuddio ag enamel lliwgar gyda'r llythrennau CCT – Cyngor Cymuned Trefeurig arno. Cyflwynodd Ruth y pendant i'r Cadeirydd presennol Mr John Bennington, mewn cinio yng ngwesty'r Talbot (Aberystwyth) yn ddiweddar. Yn y llun gwelir Ruth a'r cadeirydd, hefyd yr Is-gadeirydd, Mrs Edwina Davies (mam Ruth) a Jonathan a wnaeth gist fach dderw i ddal y cyfan. (O *Dincer* Chwefror 1990)

Bu cryn ddiddordeb yn y llun o'r tim hoci yn rhifyn Ionawr ac ymdrech i enwi y rhain yn y llun. Diolch i Carwen a Cerys am eu cymorth. Llinell gefn: Ffion Jones, Megan Spink, Sian Wyn Davies, Jill ?, Bethan Evans, Non Jones, Catrin Mason; llinell flaen: Dawn Lewis, Anne Morris, Alison Lewis, Gwenda Roberts, Carwen Hughes Jones. Am ryw reswm, nid oedd Meinir Chambers – aelod ffyddlon o'r tîm am dros 30 o flynyddoedd – yn y llun.

**Dyma ddau rigwm - o gyfnodau gwahanol - i nodi sawl diwrnod sydd mewn mis. A wyddoch chi am eraill?**

**Rhifedi dyddiau pob mis**
Tri-deg sydd yn Medi dybrin,
Ebrill, Tachwedd a Mehefin;
Wyth ar hugain ym mis Chwefror –
Blwyddyn naid bydd un yn rhagor;
Pob mis arall yn y flwyddyn
Tri-deg dydd ag un sydd ynddyn'.

Gan y Parchg D Jones, Caerdydd 1849

Tri deg diwrnod sydd yn Ebrill
A Mehefin, mis y gân.
Tri deg diwrnod sydd yn Medi,
A mis Tachwedd, mis y tân.

**Dathlu deng mlynedd**

Cafwyd noson i'w chofio ar nos Sul, 8 Rhagfyr yng Nghanolfan Morlan, Aberystwyth mewn cyngerdd i ddathlu deng mlynedd ers sefydlu Adran Aberystwyth. Roedd y cyngerdd yn benllanw wythnosau o ymarfer a pharatoi o dan arweiniad sylfaenwyr yr Adran sef Helen Medi a Lona Phillips. Roedd elw'r noson yn mynd at Uned Gemotherapi Ysbyty Bronglais. Pleser o'r mwyaf yn ddiweddar felly oedd cyflwyno siec o £1000 i Mrs Heulwen Lewis o'r Uned.

Dymuna arweinyddion a ieuenctid yr Adran ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson arbennig.



SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# Y BORTH

**Cymdeithas Henoed y Borth**

Roedd y Nadolig yn gyfnod prysur iawn i Gymdeithas Henoed y Borth unwaith eto eleni. Cawsom drip siopa Nadolig i Gaer, Ffair Elusennau y Borth yn Neuadd Goffa'r pentref, te parti Nadolig gydag adloniant gan ddisgyblion Ysgol Craig yr Wylfa, a'n cinio Nadolig yn Llety Parc. Ar ôl y cinio hyfryd, buom yn canu ein hoff garolau i gyfeiliant hyfryd aelodau o fand Pres Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig dan arweiniad Mr Aidan Hassan. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo mewn unrhyw ffordd er mwyn sicrhau dathliad mor llawen.

Ers y Nadolig, rydym wedi bod i weld y pantomeim yn Theatr y Werin yn Aberystwyth ac roedd pawb wrth eu bodd â'r sioe lwyfan. Fe ychwanegwyd at y naws arbennig wrth i'r cast ganu 'Pen blwydd hapus' i Mr. Allan Everard, un o'n haelodau, ar ei ben blwydd yn 95 oed.

Rydym hefyd wedi cynnal te parti a chwis Blwyddyn Newydd, ac fe gafwyd sesiwn Bingo yn lle'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a ohiriwyd tan fis Chwefror oherwydd salwch sawl aelod o'r pwyllgor. Rwy'n falch o ddweud eu bod i gyd yn holliach bellach.

Yn ein cyfarfod nesaf, byddwn yn mwynhau sesiwn 'Aerobeg Cadair' dan arweiniad ein ffrind mawr Sarah Tudor. Mae Cymdeithas Henoed y Borth yn cwrdd am yn ail ddydd Iau yn Neuadd y Borth am 1.45yp ac mae croeso cynnes i bawb. Y cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach yw Joy Cook ar 871649.



Cafwyd adloniant yn y cinio Nadolig gan aelodau o fand pres Penweddig.



Cinio Nadolig yn Llety Parc

**Arddangosa Cofio'r Holocost**

I nodi Diwrnod Cofio'r Holocost 2020, mae dynes o'r Borth wedi creu arddangosfa er cof am ei thad-cu a laddwyd yn Auschwitz yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae'r arddangosfa yng Nghanolfan y Morlan yn Aberystwyth yn olrhain hanes Lieb Nussbaum, wnaeth ffoi rhag gwrth-semitiaeth o Wlad Pwyl i Wlad Belg, ac yna yn 1942 o Wlad Belg i Ffrainc lle cafodd ei arestio a'i gludo ar drên i'r gwersyll difa.

Roedd e'n un o chwe miliwn o Iddewon o wledydd ledled Ewrop a lofruddiwyd gan blaid Natsïaidd yr Almaen, dan arweiniad Adolf Hitler, yn Auschwitz a gwersylloedd difa eraill rhwng 1941-1945. Nawr mae ei wyres Jackie Bat-isha wedi adrodd ei stori ddirdynnol trwy gyfres o erthyglau, toriadau papur newydd, eitemau coffa a hen ffotograffau.

"Nes i ddod i Ganolfan y Morlan am y tro cyntaf dair blynedd i nodi Diwrnod Cofio'r Holocost yn eu hystafell dawel," meddai Jackie, sydd wedi byw yng Ngheredigion ers 1984 ond a aned yn Llundain ar ôl i'w thad lwyddo i ddianc o Ewrop a gorthrwm y Natsïaid yn 1940. "Ym mis Hydref y llynedd, cysylltodd Alwen Roberts â mi i ofyn a fyddai gennyf ddiddordeb mewn trefnu digwyddiad ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2020. Bues i a fy mhartner Lin yn curadu'r arddangosfa gyda chryn anogaeth a chefnogaeth ymarferol gan Alwen a'i gŵr. Mae'r arddangosfa yn olrhain hanes fy nhaid Lieb Nussbaum ac er mai stori un dyn sydd yma, mae ei dynged greulon yn adlewyrchu ffawd cynifer o Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd."

Wrth siarad yn agoriad swyddogol yr arddangosfa, talodd Jackie deyrnged hefyd i Lucienne Deguilhem, gwraig o Ffrainc a fu'n cuddio nifer o Iddewon yn atig ei chartref yn ystod cyfnod y Natsïaid. Roedd mam-gu Jackie, Perele Nussbaum, yn eu plith. Roedd teulu Jackie yn allweddol yn yr ymdrechion i sicrhau bod Lucienne Deguilhem yn cael ei chydnabod â gwobr 'Y cyfiawn ymhlith y cenhedloedd' gan Yad Vasehm o Ganolfan Cofio'r Holocost y Byd yn Jerwsalem.

Yn ei hanerchiad, fe bwysleisiodd Jackie yr angen i gadw atgofion y meirw yn fyw ac i ddilyn y thema 'Sefyll Gyda'n Gilydd' a gafodd ei dewis ar gyfer Diwrnod Holocost y Byd 2020, oedd yn nodi 75 mlynedd ers rhyddhau carcharorion Auschwitz.

Mae'r arddangosfa yng Nghanolfan y Morlan ar agor rhwng 9yb – 4yp o ddydd Llun i ddydd Gwener, a 10yb - 3.30yp ddydd Sadwrn tan 27 Chwefror, ac mae mynediad am ddim.



Jackie Bat-Isha o'r Borth



Lieb Nussbaum, tad-cu Jackie Bat-Isha, a lofruddiwyd yn Auschwitz yn 1942.

Mae Jackie, sy'n gyn berchennog siop Stars yn Aberystwyth, hefyd yn trefnu gweithdai ar gyfer plant ysgol a grwpiau eraill.

**Pwyllgor Apêl Eisteddfod y Borth**

Mae perchnogion sinema Libanus 1877 yn cefnogi'r ymdrechion yn lleol i godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion



Perchnogion sinema Libanus 1877, Grug Morris a Peter Fleming

2020. Diolch i haelioni Peter Fleming a Grug Morris, mae Pwyllgor Apêl y Borth yn cyflwyno cyfres o ffilmiau yn sinema Libanus gyda'r holl elw yn mynd at y gronfa leol.

Drannoeth gêm rygbi Cymru yn erbyn Ffrainc ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, bydd dangosiad arbennig o'r ffilm eiconig Grand Slam - ffim a gyfarwyddwyd gan y diweddar John Hefin o'r Borth am 5.15yp dydd Sul 23 Chwefror.

Dangoswyd ffilm eiconig Twin Town, gyda Rhys Ifans, am 5.30yp ddydd Sul 2 Chwefror, gyda phob sedd wedi mynd o fewn deuddydd. Dywedodd y Cynghorydd Ray Quant, cadeirydd Pwyllgor Apêl y Borth: "Fel Pwyllgor, rydyn ni'n hynod ddiolchgar i Peter a Grug am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i ganiatáu i sinema Libanus gael ei defnyddio i ddangos ffilmiau Cymreig er mwyn codi arian at y gronfa. Diolch hefyd i bawb sy'n cefnogi ymdrechion y pentref i gyrraedd y nod o £5,000. Rwy'n gwbl ffyddiog y byddwn wedi mynd heibio'n targed cyn ymweliad y brifwyl â'r sir ym mis Awst."

Hyd yma, mae'r Pwyllgor Apêl wedi codi dros £4,500.

**Nadolig a'r Ystwyll yn Eglwys y Borth**

Dydd Sul Rhagfyr 15fed cyflwynodd aelodau presennol a gorffennol yr Ysgol Sul eu gwasanaeth Nadolig. Rydym I gyd ynfalch iawn ohonynt. Diolch i bawb a gynorthwyodd cyn ac yn ystod y diwrnod trwy ymarfer canu a darllen a gyda gwisgoedd ac anogaeth. Diolch arbennig i'r Parchg Becky Evans ddaeth I gymeryd y gwasanaeth, a Cath Murray a Helen Jones gyfeiliodd I'r gwasanaeth cyflawn gyda'u cerddoriaeth hyfryd ar y fiola a'r gitâr.

Cafwyd gwasanaeth carolau dyrchafol noswyl Nadolig ar Ragfyr 24ain. Roedd yn hyfryd gweld ein heglwys mor llawn gyda phobl yn dod I ddathlu geni'r Iesu. Nid oedd sedd wag ar achlysur mor arbennig.

Bore'r Nadolig cafwyd gwasanaeth unedig yn Eglwys Mihangel Sant, Eglwys-fach yn cael ei arwain gan y PArchg Stuart Bell, Dechrau hyfryd i'n diwrnod Nadolig..

Dydd Sul 19eg o Ionawr (Ystwyll2) cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl, yn cael ei arwain gan David Poole, Gweinidog trwyddedig lleyg. Gwnaeth y plant y Cristingls yn nen yr Ysgol Sul gyda Tim cyn dod a nhw i mewn i'r eglwys. Cafwyd sgwrs fer am ystyr y Cristingl gan Tim Eldon a darllenwyd gweddïau gan y plant.

Bydd yr Ysgol Sul ond yn cyfarfod ar Suliau cyntaf a'r trydydd o'r mis am ychydig nes y cawn fwy o gymorth. Holwch os ydych a diddordeb i gynorthwyo.

Gellir cysylltu gyda'r Parchg Alun Evans ar 01970 591405



# Eisteddfodau yr Urdd Ceredigion 2020

**CHWEFROR 27 Dydd Iau**
Gŵyl Offerynnol Cynradd ac Uwchradd yn Theatr Felin-fach.

**MAWRTH 11 Dydd Mercher**
Rhagbrofion Eisteddfod Cylch Aberystwyth yn Ysgolion cynradd y cylch.

**MAWRTH 11 Nos Fercher**
Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion Aelwydydd yr Urdd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth am 6.00.

**MAWRTH 12 Dydd Iau**
Eisteddfod Cynradd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

**MAWRTH 20 Dydd Gwener**
Gŵyl Ddawns yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul

**MAWRTH 27 Dydd Gwener**
Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb.

**MAWRTH 28 Dydd Sadwrn**
Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00 yb.





Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Arddangosfa Chwefror
Dilyn ôl troed
Leib Nussbaum
Un ymhlith 6 miliwn o
ddioddefwyr yr Holocost

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Pen-llwyn**

*Chwefror*

23 10.00 Peter Thomas

*Mawrth*

1 10.00 Beti Griffiths
8 2.00 Bugail
15 10.00 Bugail
22 2.00 Eifion Roberts
29 10.00 Bugail

**Merched y Wawr Melindwr**

Dechreuwyd ein cyfarfod gyda chroeso gan ein Llywydd - Eirwen McAnulty - yn gofyn i ni adrodd cân y Mudiad. Gyda chofnodion cyfarfod mis Ionawr wedi eu darllen roedd hysbysebion i'w rhannu. Hefyd roedd trefniant i drafod ynglŷn â gweddill y flwyddyn. Mewn fawr o dro roedd y neuadd yn llawn bwrlwm wrth i feic modur mawr melyn gael ei hwthio trwy'r drws. Yna daeth llawer o ddynion a merched i mewn yn gwisgo siacedi melyn llachar. Croesawyd pawb o Aelodau Beiciau Gwaed Cymru Aberystwyth, un o 9 grŵp erbyn hyn yng Nghymru.

Aeth Graham Jones ati i gyflwyno eu gwasanaeth a rhoi hanes yr elusen. Cytunodd pawb i ni gael agoriad llygaid wrth wrando am y cyfrifoldebau sydd yn cael eu trosglwyddo gan y Gwasanaeth Iechyd i'r gwirfoddolwyr yma. Allan o oria cyffredin maent yn cludo eitemau fel profion gwaed, samplau meinwe, nodiadau cleifion, meddyginiaeth, a llaeth y fron. Mae'r elusen yn dibynnu'n llwyr ar roddion unigolion, mudiadau a busnesau i ddarparu y gwasanaeth hollol bwysig yma. Diolchodd Eirwen i Graham am eu harddangosfa addysgol. Gyda pawb yn mwynhau paned roedd yn amser cael llun efo Llew y beic modur. Mae pob beic erbyn hyn yn cael ei enwi ac yn ymddangos ar y blaen. Mae'n debyg bod y Llewod lleol wedi cyfrannu yn haul i'w brynu. Diolchodd Graham ar ran yr elusen a'i gydwirfoddolwyr am gasgliad ein haelodau o £89.

Byddwn yn dathlu ein Nawdd Sant yng Ngwesty'r Richmond ar y 3ydd o Fawrth, bydd angen i ni fod yna cyn 7.30 yh, os gwelwch yn dda.




**Marwolaeth**

Daeth tristwch i ardal gyfan wrth glywed am farwolaeth Richard Islwyn Evans neu fel yr adnabuwyd ef yn lleol, Dick Exchange.

Cafodd ei eni ym Mhlas y Coed, Pen-bont Rhydybeddau ar y 6ed o Fai 1930, yn un o 6 o blant i Mary Anne a James Evans. Ni fu ei arhosiad yma yn hir gan i'r teulu symud i Fancydarren ac i Dick fynychu Ysgol Gynradd Trefeurig, ond pan oedd yn 10 oed cyrraedd Dôl-y-pandy yma yng Nghapel Bangor a dechrau yn Ysgol Gynradd Pen-llwyn. Yn fuan ar ôl hyn pan yn 14eg oed, ennynodd ddiddordeb anghyffredin mewn ceir a'u gwneuthuriad a dechreuodd weithio i gwmni Daniels yn Stryd y Felin yn Aberystwyth cyn ymuno yn ddiweddarach â David Gallimore oedd yn berchen garej ar bwys y castell yn Aberystwyth.

Pan yn 26ain oed penderfynnodd ddilyn David Gallimore i Southampton, am



fod David, yn gynharach, wedi prynu garej yno ac angen mecanic dibynadwy. Yma daeth i gysylltiad â'i briod hawddgar Brenda, a chyfeiriai ati yn aml fel y "Dywysoges". Priodwyd y ddau ym mis Mawrth 1958.

Ym 1960 daethant ill dau nôl i Aberystwyth a phrynu Garej Reliance yn Nhrefechan, a gweithio yn ddiwyd yma am nifer o flynyddoedd. Gyda dyfodiad ei fab Mark ym 1964 roedd ei gwpan yn llawn. Cofiai Mark iddo gael ei roddi i eistedd ar bwys y ceir oedd i'w trwsio a hynny pan yn ieuanc iawn, pa ryfedd iddo yntau droi ei law at yr un alwedigaeth a disgleirio yn ei gamp, fel ei dad.

Ym 1967, daeth y teulu bach yn ôl i Gapel Bangor wrth iddynt brynu Siop Exchange ac yn ddiweddarach datblygu y Garej fel yr adnabyddir hi heddiw, "Exchange Service Station", bu yn delio â chwmni SAAB yn llwyddiannus dros ben am nifer o flynyddoedd, ac ymhyfrydai ym mhoblogrwydd y ceir arbennig yma, ond rhaid oedd symud ymlaen i'r ddêl nesaf gan Seat a gwblhawyd ym l986.

Er na chafodd yr iechyd gorau y blynyddoedd diwethaf yma, ymlwybrai i fyny i'r garej yn ddyddiol yn y prynhawn a chafodd ei ddal yn cysgu mewn cadair esmwyth yng nghanol y ceir lawer tro! Roedd ei deulu yn bwysig iawn iddo, a châi ef a'i ferch yng nghyfraith, Iona lawer o sgyrsiau parthed materion y dydd, a byddai ei chynghorion hi iddo yn cael eu gwireddu bob amser.

Pan anwyd Ffion ac Anna, ei wyresau roedd Dad-cu wrth ei fodd, ac ymhyfrydai yn llwyddiant y merched ac edrychai ymlaen at gael eu cwmni yn achlysurol.

Roedd Dick, gan iddo fynychu ysgol y pentref ac iddo adnabod yr ardal yn dda, yn cael ei ofyn yn aml i ddadansoddi llun a rhoi enwau neilltuol yn eu lle ar wahanol bersonau anghofiedig. Bydd yr ardal yn wacach heb ei gwmni, diolchwn iddo am ei wasanaeth diflino am flynyddoedd lawer.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i briod Brenda, Mark, Iona, Ffion ac Anna, ei chwaer Lynda a'i phriod Eilir Morris a hefyd â John Victor a'r teulu a fu mewn cysylltiad agos â Dick am flynyddoedd.

**Eglwys Dewi Sant**

Cynhaliwyd noson goffi nos Wener, 6 Rhagfyr 2019 yn Neuadd yr Eglwys. Cafwyd adloniant hyfryd ac ardderchog gan Eleri a'i Ffrindiau. Yng Nghomins-coch mae Eleri Roberts yn byw ers 30 mlynedd. Mae'n aelod o staff Cyngor Llyfrau Cymru, yn cynnig gwersi canu i blant ac ieuenctid ac yn hyfforddi partïon Cantre'r Gwaelod a'r Gromlech. Mae Trefor Pugh yn ffermio yn Nhrefenter ers dros 30 mlynedd, ond daw yn wreiddiol o Ddinas Mawddwy. Mae'n enillydd sawl tro yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Ŵyl Cerdd Dant ar ganu gwerin a cherdd dant. Mae Trefor ac Eleri yn aelodau o Gôr Cymysg ABC. Maent hefyd yn aelodau o bwyllgorau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020, ac fe fyddan nhw'n brysur iawn gyda'r paratoadau o hyn i fis Awst nesa! Dwy nith i Eleri yw'r ddwy chwaer Anwen ac Eleri, sy'n dod yn wreiddiol o Gapel Seion ond sy'n byw nawr yn Ffos-y-ffin. Mae'r ddwy yn athrawesau wrth eu galwedigaeth: Eleri'n dysgu yn Ysgol Gynradd Aberteifi, ac Anwen wedi gadael yr ystafell ddosbarth bellach ac wedi troi at waith cyfieithu. Mae Ioan Mabbutt, Llanbadarn a Fflur O'Connell, Aberaeron, yn ddisgyblion i Eleri Roberts. Mae Ioan yn enillydd sawl tro

yn eisteddfodau'r Urdd, y Genedlaethol a'r Ŵyl Cerdd Dant, ac mae Fflur wedi cyrraedd llwyfan Eisteddfod yr Urdd hefyd – yn y Fflint yn 2016. Mae ganddynt leisiau a doniau arbennig. Yr arweinyddes a'r gyfeilyddes oedd Eleri Roberts. Mae Eleri yn berson arbennig a dawnus dros ben. Hefyd tynnwyd y raffl fawr yn ystod y noson. Cyflwynwyd y parti a diolchwyd gan y Canon Andrew Loat. Diolch yn fawr iawn i'r aelodau a chyfeillion yr eglwys a fu wrthi yn paratoi y neuadd gan wneud y noson yn llwyddiant. Braf iawn oedd gweld y goeden Nadolig i fyny erbyn y noson.

Prynhawn Sadwrn, 14 Rhagfyr cynhaliwyd prynhawn coffi yn yr Eglwys. Braf iawn oedd gweld aelodau a chyfeillion yr Eglwys yn bresennol. Hyfryd oedd cael cyfle i sgwrsio dros baned ar gyrion y Nadolig. Diolch am eich presenoldeb a'ch cefnogaeth.

Ar nos Sul, 22 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth carolau yng ngolau'r gannwyll. Darllenwyd y llithiau gan Lowri Jones; Sarah Hughes; Nannon Jones; Tomos Gruffydd Jones; Luned Jones a'r Parchedig Heather Evans. Rhoddwyd y gweddïau gan y Parchedig Heather Evans. Yr organydd oedd Mr Maldwyn James – sydd bob amser yn barod i'n cynorthwyo. Hyfryd oedd gweld cymaint o gynulleidfa yn bresennol. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Heather Evans. Cafwyd gwin twym a mins peis ar ôl y gwasanaeth. Addurnwyd yr Eglwys yn fendigedig gan yr aelodau.

Ar noswyl Nadolig cafwyd gwasanaeth hwyrnos am 11 yng ngofal Y Parchedig Heather Evans. Hefyd cafwyd gwasanaeth ar fore dydd Nadolig, gwasanaeth o Gymun Bendigaid am 9.30 yng ngofal y Parchedig Heather Evans.

Cofiwch am y Noson Grempog sydd ymlaen Nos Fawrth Ynyd, 25 Chwefror 2020 yn Neuadd yr Eglwys am 7yh. Croeso cynnes i bawb.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau gwresog i Tim a Christina Dean, Penbontbren, ar enedigaeth Arwen Myfanwy. Wyres i Llywela a'r teulu, Llwynteg a gor wyres i Eifion, Ty'n Cwm. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Calennig**

Aeth dau lun o ganu calennig yng Nghapel Bangor ar goll 'yn y gofod' y mis diwethaf



Megan, Efanna, Manon ac Elsi Lewis yn canu calennig yn gynnar bore Calan. Cawsant groeso mawr gan drigolion Pen-llwyn.



Angharad, Morgan, Iestyn ac Ela yn canu calennig




Dyma fy erthygl gyntaf eleni, ac rwy'n edrych ymlaen unwaith eto i gynrychioli Ceredigion yn ein Senedd. Hoffwn achub ar y cyfle i longyfarch Ben Lake ar gael ei ail-ethol i gynrychioli Ceredigion yn San Steffan – dwi'n falch iawn y byddaf yn gallu parhau i weithio'n agos ag ef.

Un o fy nghyfarfodydd cyntaf eleni oedd gyda Gweinidog Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn Bow Street, i drafod yr orsaf newydd a'r angen brys i wella diogelwch ein priffyrdd. Mae gwella diogelwch ffyrdd yn rhywbeth dwi'n gweithio arno ym mhob rhan o Geredigion, ond fel dangoswyd gan ddamweiniau difrifol yn ddiweddar, mae'r rhan yma o'r A487 yn arbennig o beryglus. Mae angen cyffyrdd newydd a lleihau cyflymder y traffig.

Yn y maes iechyd, rwy'n falch iawn i weld bod sganiwr newydd MRI Bron-glais ar gychwyn. Roedd hwn yn ymgyrch hir, ac mae sawl ymgyrch arall ar y gweill. Eleni, byddaf yn parhau i geisio gwella'r ddarpariaeth o ddeintyddion yng Ngheredigion, ac i geisio sicrhau bod nyrsys ar gael sy'n arbenigo mewn epilepsi, Parkinsons a meysydd eraill hefyd.

Yn olaf, braint oedd cael llongyfarch Papur Sain Ceredigion ar lawr y Senedd ar ddathlu 50 mlynedd o wasanaeth i'r deillion Ionawr eleni. Diolch i'r holl wirfoddolwyr.

Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

CIGYDD BOW STREET 01970 828447 Deli BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
hedyddcunningham@live.co.uk

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**

*Chwefror*

23 10.00 Oedfa yng Nghapel Pen-llwyn Y Parchg Peter Thomas
10.30 Clwb Sul ar y cyd

*Mawrth*

1 10.00 Oedfa Gŵyl Ddewi – Morlan Aberystwyth
8 10.30 Y Parchg Peter Thomas – oedfa gymun deuluol
15 10.30 Clwb Sul – Horeb
2.30 Y Parchg Peter Thomas
22 10.30 Oedfa gan Coda ni yn Horeb
10.30 Clwb Sul ar y Cyd
29 10.30 Y Parchg Wyn Morris

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau 26 Chwefror, a 11 a 25 Mawrth. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Bardd y mis**

Bu Judith Musker-Turner - enillydd cadair Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2018 yn Fardd y Mis Radio Cymru fis Ionawr. Clywyd hi sawl gwaith yn ystod y mis yn darllen cerddi gyfansoddodd ar gyfer gwahanol achlysuron.s

**Cymdeithas y Penrhyn**

Alun Davies, awdur y nofel ddiectif *Ar Drywydd Llofrudd*, oedd ein siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr. Mae'r nofel wedi ei lleoli yn Aberystwyth lle cafodd Alun Davies ei fagu.Teitl y sgwrs oedd 'Y Saith Llyfr y tu ôl i Ar Drywydd Llofrudd' a chawsom gipolwg ar yr hyn y mae pob un wedi ei gyfrannu at y gwaith. Y cyntaf oedd *Last Bus to Woodstock* gan Colin Dexter, awdur nofelau Inspector Morse. Mae'r ffaith mai yn Rhydychen y mae'r nofelau hynny wedi eu lleoli'n elfen bwysig ynddynt ac roedd Alun am gyfleu rhywbeth am Aberystwyth yn ei nofel yntau.

Yr unig lyfr ffeithiol ar y rhestr oedd *Born to Run* gan Christopher McDougall sy'n rhoi hanes pobl yng ngogledd America sy'n gallu rhedeg pellteroedd enfawr. Soniodd Alun ei fod yntau'n rhedeg a'i fod yn creu cymeriadau, cynllunio'i stori a datrys problemau wrth wneud hynny.

*IQ84* gan Haruki Murakami sbardunodd ddull ysgrifennu'r nofel o gael y ddau dditectif sy'n ymchwilio i'r llofruddiaeth, sef Taliesin ac MJ, i adrodd y stori bob yn ail bennod a hynny o'u safbwynt personol. Nofelau eraill ar y rhestr oedd Y Llwybr gan Geraint Evans ac Ymbelydredd Guto Dafydd.



**Bedydd**

Ar Ionawr 12fed daeth llu o deulu a ffrindiau ynghyd i gapel Horeb i ddathlu bedydd Elsi Wynn, merch Aled a Cerys, Ystrad, Capel Bangor. Gweinyddwyd gan y Parchg Peter Thomas a llawer o ddiolch iddo am wasanaeth cofiadwy. Dyma lun ohoni gyda'i theulu.

Cawsom noson ddifyr iawn a chael ar ddeall bod Alun wrthi'n ysgrifennu'r ail nofel mewn trioleg y mae'n gobeithio ei chwblhau yn y blynyddoedd nesaf. Cyhoeddwyd *Ar Drywydd Llofrudd* gan Y Lolfa, pris £8.99.

**Newyddion Cronfa Apêl Trefeurig Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020**

A ninnau ar gychwyn blwyddyn gyffrous, pan fydd y Brifwyl yn dychwelyd i Geredigion, mae'n braf iawn gallu adrodd ein bod ni fel Cronfa Apêl Trefeurig wedi cyrraedd, ac wedi pasio, ein targed ariannol o £7,000. Erbyn mis Chwefror 2020 rydyn ni wedi codi dros £13,000 sydd yn wirioneddol wych. Rhaid diolch i bob un ohonoch chi am eich cyfraniadau a'ch parodrwydd i gefnogi ein hymdrechion nid yn unig i godi arian, ond hefyd gynyddu'r ymwybyddiaeth am ddyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae disgwyl i'r cyfanswm terfynol fod yn fwy na hynny eto, gan fod rhywfaint o boteli o jin eto i gael eu gwerthu (tua 60) a hefyd pan ddaw'r holl elw o'r gwerthiant Nadolig i'r cyfrif hefyd. Rhaid diolch eto i Mererid Lewis Dafis am ei chyfraniad aruthrol o £1,250 am werthu'r cardiau Nadolig.
Ein nod eleni yw ceisio sicrhau fod pawb yn ein dalgylch yn derbyn gwybodaeth am ymweliad y Brifwyl â Cheredigion.
Ac i'r perwyl hwnnw rydyn ni'n trefnu te prynhawn ar Ddydd Gŵyl Dewi yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch rhwng 2-4yp. Fe fydd tocynnau yn £5, ac yn ogystal â the blasus fe fydd yna adloniant gan rai o blant yr ardal. Gaf i erfyn arnoch chi felly i ledaenu'r neges a chael cymaint o bobl a phosib i ddod i'r prynhawn hwnnw. Bydd tocynnau ar gael drwy'r pwyllgor (Sara Gibson, Delyth Jones, Llifon John neu Sara Beechey), Garej Tŷ Mawr neu Swyddfa'r Post, Penrhyn-coch. Bydd hysbysebion yn ymddangos yn y dalgylch ac ar wefannau cymdeithasol toc.

**Urdd y Gwragedd**

Ar nos Lun, 2 Mawrth 2020 am 7.30 y.h. yn Neuadd yr eglwys, cynhelir noson arall yng nghwmni Helen Palmer o Archifdy'r Sir. Parhad o'r hanes a gawsom am Florrie Hamer fydd hwn yn canolbwyntio ar Hanes Gogerddan. Croeso cynnes i chi ymuno â ni, mi fydd lluniaeth ysgafn i ddilyn.

**PÊL-DROED PENRHYN-COCH**

*Ionawr*

10 Corwen 1 Penrhyn-coch 3 . Sgorwyr: Jon Evans, Steff Davies, Guto Huws
17 Gresffordd 2 Penrhyn-coch 1
24 Penrhyn-coch 0 Bangor 0

*Chwefror*

1 Penrhyn-coch 2 Llangefni 0 sgorwyr: Ifan Burrell a Steff Davies
4 Cwpan Canolbarth Cymru Penrhyn-coch 3 Llanrhaeadr-ym-mochnant 1
8 Penrhyn-coch 2 Y Rhyl 1 - sgorwyr: Nathan Pemberthy a Tom Evans
Y Gêmau cynghrair nesaf

*Chwefror*

15 Bae Colwyn i ffwrdd
22 Adref yn erbyn Conwy

**Mawrth**

7 Trefyclo I ffwrdd
10 rownd chwarteri Cwpan Canolbarth Cymru..Y Trallwm yn erbyn Penrhyn-coch. i ffwrdd
14 Adref yn erbyn Porthmadog
21 Bangor i ffwrdd
28 Adref yn erbyn y Fflint

**Eilyddion**

*Ionawr*

10 Penrhyn-coch 2 Aberdyfi 1 ... cwpan Len a Julia Newman. Sgoriwr: Jack Barron 2 gôl
17 Prifysgol Aberystwyth 2 Penrhyn-coch 1 sgoriwr: Jack Barron
24 Padarn 3 Penrhyn-coch 0

*Chwefror*

1 Bont 5 Penrhyn-coch 3

# Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020

Tybed faint ohonoch sydd yn gwybod bod y Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol  yn dod i Geredigion ac yn cael eu cynnal rhwng yr 11 i'r 13 o Fedi 2020. Trwy ganiatâd caredig Mrs Eirlys Jones a'i Theulu, cewn fwynhau'r Treialon ar Fferm Tancastell, Rhydyfelin, Aberystwyth mewn lleoliad hyfryd rhwng dau fryn ac yn edrych dros y môr.

Trefnir a rheolir y Treialon gan Bwyllgor Lleol sy'n cynnwys Llywydd Gymdeithas Cŵn Defaid Rhyngwladol Cymru, Mr Eirian Morgan, y cigydd o Aberystwyth.

Bydd y Treialon yn denu cystadleuwr o'r Alban, Lloegr, Iwerddon a Chymru heb anghofio y Trinwyr Ifanc fydd yn cynrhychioli eu gwlad. Bydd cystadlu brwd ar Ddydd Gwener a  Dydd Sadwrn er mwyn cyrraedd y ffeinal fawr ar y Dydd Sul.

Rhagwelir y bydd y digwyddiad yn denu 12,000 o ymwelwyr gan gynnwys ymwelwyr o dramor.

Yn ogystal â'r Treialon cynhelir Gŵyl Fwyd a Chrefftau mewn pabell ar y cae  lle disgwylir dros 50 o stondinau di-ri, a bydd hefyd nifer o stondinau masnach ar draws y cae. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes os bod diddordeb gennych i



gael stondin yn y babell neu stondin fasnach. Cynhelir cyngerdd yn y babell fawr ar y nos wener.

Edrychwn ymlaen at benwythnos llawn bwrlwm cystadlu, awyrgylch braf a gŵyl bydd yn dathlu bwydydd a chrefftau arbennig Ceredigion. Dewch i fwynhau cymdeithas cefn gwlad Ceredigion ar ei orau.

Os hoffwch gefnogi'r Treialon mewn unrhyw ffordd, boed yn ariannol, drwy noddi, trefnu gweithgaredd i godi arian neu wirfoddoli, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pob cymorth. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes Meinir Davies ar 01970 890259 neu drwy e-bostio trials2020.secretary@outlook.com.

Medrwch hefyd ddilyn ni ar tudalen "Facebook". Treialon Cwndefaid Rhyngwladol Ceredigion2020 International Sheepdog Trials

Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 21 Ionawr yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd Delyth James yn y gadair, a'r cynghorwyr Edwina Davies, Iona Davies, Mel Evans, Shân James, Richard Owen, Gwenan Price, Dai Mason ac Eirian Reynolds yn bresennol. Nid oedd y Clerc yn gallu bod yn bresennol, felly cymerwyd y cofnodion gan Eirian Reynolds.

Materion yn codi: Golau stryd – gwirfoddolodd Mel Evans i gynnal adolygiad o olau stryd yn y Penrhyn wedi iddo gael y cyfarwyddyd priodol, a chytunodd Richard Owen i'w gynorthwyo. Llwybr beicio / cerdded o Benrhyn-coch i Gogerddan. Dywedodd y Cynghorydd Sir Dai Mason fod yr arian ar gael i wneud y llwybr a chroesawyd hyn yn fawr gan y Cyngor. Fodd bynnag roedd dau fater wedi codi oedd yn peri anhawster. Roedd rhai wedi gwrthwynebu codi'r berth oedd rhwng caeau'r Fridfa a'r ffordd. Doedd y Cyngor ddim yn gweld fod hon yn broblem fawr gan nad oedd hi yn hen berth, ac fe ellid plannu perth newydd yn ei lle. Yr ail broblem oedd union gwrs y llwybr. Doedd y tir ddim ar gael i gael llwybr ger Yr Hen Ficerdy; oherwydd hyn byddai gofyn i'r llwybr newydd gychwyn ar yr ochr dde i'r ffordd rywle rhwng y pentref a'r bont, a pharhau ar y dde heibio'r bont ac ymlaen nes croesi'r ffordd mewn man clir a pharhau ar y chwith nes cyrraedd Gogerddan ac yna croesi eto i'r dde i basio Gogerdan a chwrdd â'r llwybr newydd oedd yn mynd i Bow Street. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i drafod y mater hwn. Y garafan ger Ceirios – roedd y Cyngor Sir wedi addo edrych i mewn i'r mater. Y ffordd i Fanc Cwrt – roedd y Cyngor Sir wedi agor ffos newydd. Tyllau yn y ffordd yng Nghefn Llwyd – doedd dim wedi cael ei wneud am y rhain.

Archebiant ar gyfer 2020/21: cytunwyd i gadw archebiant y Cyngor yn £13,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Cyfraniadau i gymdeithasau a mudiadau lleol: cytunwyd i drafod y rhain ym mis Chwefror.

Materion eraill: adroddodd y Cynghorydd Mason fod Wales and West Housing wedi newid y cais ar gyfer tai ar dir Pen-banc, y tu draw i Gapel Horeb. Y bwriad gwreiddiol oedd cael byngalos ger y ffordd a thai y tu cefn iddynt, ond nawr y bwriad oedd cael saith tŷ yn wynebu'r ffordd a byngalos y tu cefn iddynt. Doedd y Cyngor ddim yn hapus gyda hyn, a phenderfynwyd holi'r Cyngor Sir a fyddai hyn yn golygu cais newydd.


Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

Tylino Thai Trefechan
(Thai Massage)
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

# BOW STREET

**Suliau'r Garn**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org**
*Chwefror*
23 Rhidian Griffiths

*Mawrth*
1 Bugail
8 Elwyn Pryse
15 Goronwy P. Owen
22 Bugail
29 10.00 Unedig ym Mhen-llwyn

**Suliau Noddfa**
*Chwefror*
23 Parchg Andrew Lenny

*Mawrth*
1 Uno yn y Garn
8 Parch. Richard Lewis
15 Cyfeillach
22 Parch. Richard Lewis
29 Dr. Rhidian Griffiths

**Gwellhad Buan**
Mae'n dda cael ar ddeall bod Mrs Sian Evans, Maesafallen, adref o'r ysbyty ers peth amser erbyn hyn ar ôl cael llawdriniaeth ar ei phen-glin. Brysia wella Sian.

**Croeso gartref**
Croeso gartref i Gareth Lewis, Brynawel wedi cyfnod o chwe wythnos yn yr ysbyty.

**Ymddeol o'r Pulpud**
Erbyn y gwêl y geiriau hyn olau dydd fe fydd yna yn agos i ddeufis wedi mynd heibio ers i'r Parchg. Elwyn Pryse roi'r gorau i fynd o gwmpas i bregethu ar y Sul, a hynny wedi bod wrth y gwaith am ddeg a thrigain o flynyddoedd. Wrth ddiolch iddo am yr hyn y mae wedi ei gyflawni ar hyd y blynyddoedd yr ydym hefyd yn dymuno'n dda iddo ar gyfer seibiant haeddiannol. Fel mae'n wybyddus i nifer y mae sawl gwahanol gylch wedi dweud eu ffarwel wrtho yn eu ffordd eu hunain ac mae'n bleser cael rhannu efo darllenwyr Y Tincer, a hynny gyda chaniatâd parod yr awdur, y cyfarchiad a gyflwynwyd iddo ar achlysur ei gyhoeddiad olaf ym Mhontrhydfendigaid:


**I'r Parchedig Elwyn Pryse**
**Ar ei Ymddeoliad o'r Pulpud**
Bererin Duw, saith degawd fu dy rawd
Yn crwydro'r broydd i ledaenu'r Gair,
Dy ofal drosom megis cariad brawd
Wrth i ti sôn am Iôr a Christ fab Mair.
Goleuai dy bregethau'r muriau llwm.
Ac wedi'r fendith, sgwrs fach wrth y glwyd
Am anturiaethau doniol Lloyd y Cwm
Cyn troi am adre hyd y briffordd lwyd.
'Hwyl i chi nawr, wela'i chi eto, sbo',
A ffwrdd â ti, draw dros y bryniau pell,
Dy wylio di'n diflannu rownd y tro,
Ninnau, o gael dy gwmni'n teimlo'n well.
Heb dy bulpuda, tlotach yw'n heglwysi
Ond o ben talar, gwêl mor gain dy gwysi.

**Lyn Ebenezer**
**15 Rhagfyr 2019**

**William Tudor Barnes (1939-2020)**
Fel nodwyd yn rhifyn Ionawr o'r Tincer bu farw William Tudor Barnes ar 9 Ionawr 2020 yn 80 oed. Ganwyd Tudor yn Aberdâr ar 30 Medi 1939, a derbyniodd ei addysg yn yr Ysgol Ramadeg leol, cyn mynd ymlaen i raddio mewn hanes yn 1962 ym Mhrifysgol Caerdydd a chymhwyso fel archifydd.

Bu'n aelod o staff Cyngor Sir Gaerhirfryn am gyfnod byr cyn dychwelyd o Preston i weithio fel archifydd i Gyngor Sir Caerfyrddin gan ymgartrefu yng Nhwm-ffrwd ar gyrion y dref.

Ymunodd Tudor â staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Awst 1974, lle bu'n uchel iawn ei barch fel cydweithiwr cydwybodol a phoblogaidd. Ymgartrefodd ef a'i briod Julie, a'u plant Claire a Philip, ym Maes Afalllen, Bow Street.



Yn dilyn ei ymddeoliad yn 1999 ar ôl 25 mlynedd o wasanaeth i'r Llyfrgell, dychwelodd ef a Julie i fyw i Gwm Cynon.

Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Llwydcoed, Aberdâr ar 29 Ionawr 2020 dan ofal Y Parchg D. J. Atherton. Roedd nifer o'i gydweithwyr a chyn-gymdogion o Bow Street yn bresennol.

Derbynnir rhoddion er cof am Tudor i Sefydliad Prydeinig y Galon drwy law'r ymgymerwyr www.richardsfs.com

**REH**




**Fetran yn dathlu**
Dathlodd Walford Hughes un o breswylwyr Cartref Tregerddan ei ben blwydd yn gant oed yn ddiweddar. Mae Mr. Hughes yn un o'r rhai prin hynny sy'n gallu dweud ei fod wedi gwasanaethu yn y fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd.



**Lleisio cartŵn**
Llongyfarchiadau i Deio Elis Owen o Gaernarfon, mab Sion a Carys ac ŵyr Ambrose a Margaret Roberts, sydd wedi cael rhan yn lleisio un o gymeriadau y gyfres cartŵn poblogaidd 'Patrol Pawennau'. Bydd Deio i'w glywed fel Cwrsyn o fis Ebrill ymlaen.

**Ennill pecyn rhamantaidd**
Llongyfarchiadau I Gareth William Jones, Hafle, am ennill pecyn rhamantaidd cystadleuaeth Heno ar S4C. Gobeithio iddynt fwynhau'r pecyn.

**Marwolaeth**
Trist oedd clywed am farwolaeth David Price, Borthyn, Rhuthun, yn 73 oed ar Ionawr 24 yn Ysbyty Glan Clwyd. Yn enedigol o Blaenplwyf, bu'n byw yn Llandre a gwaelod Bow Street; cyn reolwr Banc Barclays yn Ninbych ac Aberystwyth.

**Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street**
Bu'r pwyllgor yn brysur dros adeg y Nadolig yn trefnu gweithgareddau i henoed yr ardal. Mis Tachwedd aeth llond bws i siopa Nadolig i Gaerfyrddin. Ar y dydd Sadwrn 8fed o Ragfyr cafwyd ein cinio Nadolig yn Ysgol Rhydypennau, trwy gydweithrediad Mrs Wendy Jones, cogyddes yr ysgol a staff yr ysgol, gyda help llaw y pwyllgor; hefyd derbyniwyd cyfraniad ariannol oddi wrth Banc Barclays trwy law Meinir Chambers, a hi hefyd yn helpu gweini'r cinio. Yn ystod mis Rhagfyr hefyd, rhannwyd tua

190 o anrhegion i'r henoed yn y pentref; y pwyllgor yn gofalu fod pawb wedi eu derbyn erbyn y Nadolig.

Mis Ionawr aeth llond bws lawr i Theatr y Werin i weld y pantomeim blynyddol "Peter Pan" a mwynhau yn fawr; cafwyd hufen ia hanner amser! Diolch yn fawr i Lowri Evans a Hafwen Morgan am eu trefniadau manwl a hefyd i'r pwyllgor gweithgar. Edrychwn ymlaen i'r flwyddyn nesaf yn eiddgar.

**Cit newydd y Clwb Pel-droed**

Mae'r Clwb Pêl-droed wedi cael cit trawiadol newydd, diolch i'w noddwyr Moduron Anthony, Cambrian Scaffolding, Liquid Screed Ltd, Salop Leisure, Tafarn Rhydypennau a chwmni Vale Holiday Parks. "Rydym yn ffodus iawn o haelioni ein noddwyr," meddai Wyn Lewis, cadeirydd y clwb. "Maen nhw wedi'n cefnogi'n ariannol dros nifer o flynyddoedd ac wedi helpu â phob agwedd o waith y clwb. Pobl leol y'n nhw – mae'r clwb a'r gymuned yn bwysig iawn iddyn nhw," ychwanegodd. "Ry'n ni wedi gwella cyflwr y stafelloedd newid, cael stand ychwanegol, llwybrau concrit, ac ati, drwy gymorth ariannol gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru, gyda gweddill yr arian yn dod o'n gweithgareddau codi arian. Diolch i Phil Evans o gwmni PA Evans am oruchwylio'r holl waith yng Nghae Piod dros y blynyddoedd, a sicrhau bod y clwb yn cwrdd â gofynion uchel CPC."

Ar hyn o bryd mae'r clwb yn aros am gadarnhad gan GPC a fyddan nhw'n codi i lefel 3 newydd y Gymdeithas; byddai hyn yn llwyddiant aruthrol i glwb cymharol fach mewn ardal wledig. Pob dymuniad da iddyn nhw!

Yn y llun isod gwelir noddwyr Clwb Bow Street gyda'r tîm cyntaf cyn y gêm yn erbyn Trefaldwyn:
Justin Manley ar ran Moduron Anthony, Barrie Jones o Dafarn Rhydypennau, Stevie Hughes o Cambrian Scaffolding, Neil Davies, Tomos Wyn Roberts, Llŷr Hughes (cyd-reolwr), Llion Jenkins, Ollie Fairbrother, Lee Crumpler, Garmon Nutting, John James, Vince Hesden o Aber Liquid Screed Ltd, Charles Scarrott o Vale Holiday Parks, Dylan Roberts o Salop Leisure, Phil Evans o PA Evans, Arglwydd Elystan-Morgan, Llywydd Anrhydeddus y Clwb, a Wyn Lewis, cadeirydd. Yn y rhes flaen: Barry Williams (rheolwr), Dylan Benjamin, Ryan Evans, Ben Jones, Llŷr Davies, Joe Williams, Steffan Richards a Jac Williams.



Noddwyr Clwb Bow Street yng nghwmni'r Arglwydd Elystan-Morgan, llywydd: Justin Manley (Moduron Anthony), Barrie Jones (Tafarn Rhydypennau), Stevie Hughes (Cambrian Scaffolding), Vince Hesden (Aber Liquid Screed Ltd), Dylan Roberts (Salop Leisure) a Charles Scarrott (Vale Holiday Park).

**Chwaraewr y mis**

Llongyfarchiadau mawr i Tomos Wyn Roberts, un o amddiffynwyr tîm pêl-droed Bow Street, ar ennill gwobr chwaraewr y mis yng Nghynghrair Cyntaf MMP fis Rhagfyr 2019. Yn y llun gwelir Tomos yn derbyn y tlws gan Wyn Lewis, aelod o bwyllgor gwaith y gynghrair. "Mae Tomos yn llwyr haeddu'r wobr," meddai rheolwr y tîm Barry Williams. "Mae'n fraint enfawr iddo, ac i'r clwb. Mae Tomos yn chwaraewr cwbl ymroddedig ac mae'n bleser ei gael yn rhan o'r Piod.






Lluniau: Beverley Hemmings

**Gofalaeth y Garn**

Bore Sul, 26 Ionawr, daeth rhai o grŵp Aberystwyth o'r elusen Beiciau Gwaed Cymru i Gapel y Garn i dderbyn rhodd gan gapeli'r ofalaeth, a chyflwynodd Delyth Davies, cadeirydd yr ofalaeth, siec am £680 i Mathew Leeman, cynrychiolydd yr elusen.

Wrth ddiolch am y rhodd esboniodd Mathew waith Beiciau Gwaed Cymru sy'n cynnwys cludo samplau gwaed, llaeth babi, meddyginiaethau neu ddogfennau hanfodol rhwng gwahanol ysbytai. Efallai nad ydyn ni'n gweld y beiciau'n aml ar y ffordd gan mai yn ystod y nos ac ar y penwythnos y byddan nhw'n gweithio fel arfer, gan arbed arian sylweddol i'r Gwasanaeth Iechyd.

Rhoddodd fraslun byr o waith y gwirfoddolwyr, sy'n cynnwys sawl rôl wahanol – trefnu rota'r beicwyr, codi arian a chyhoeddusrwydd, yn ogystal â reidio'r beiciau hollbwysig. Os hoffech chi eu cefnogi, ewch i'w gwefan: www.bloodbikes.wales neu ymunwch â'u grŵp Facebook: Blood Bikes Wales, Aberystwyth.

**Cymdeithas Lenyddol y Garn**

Nos Wener, 17 Ionawr, roedd festri'r Garn yn llawn ar gyfer cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol. Ein gŵr gwadd y tro hwn oedd ein Gweinidog, y Parchg Ddr Watcyn James, a thestun ei sgwrs oedd John Davies, Tahiti. Ym mis Mai 1800, mentrodd John Davies, a hanai o Lanfihangel-yng-Ngwynfa, Sir Drefaldwyn, i Ynysoedd Môr y De, a threuliodd dros hanner can mlynedd yn genhadwr ar Ynys Tahiti. Aeth ati i ddysgu iaith brodorion yr ynys a llunio gramadeg a geiriadur o'r iaith, yn ogystal â chyfieithu rhannau helaeth o'r Testament Newydd a'r Salmau. Llywyddwyd y noson gan Gweneira Wyn Williams a diolchwyd i'r siaradwr am noson ddifyr oedd yn rhoi braslun cyfoethog a dadlennol o fywyd gŵr didwyll a diymhongar iawn gan yr Athro Gruffydd Aled Williams.

**Merched y Wawr, Rhydypennau**

Er gwaethaf y tywydd gaeafol, daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd yng nghlydwch Neuadd Rhydypennau nos Lun, 10 Chwefror, i gyfarfod o gangen Merched y Wawr Rhydypennau. Llongyfarchodd y Llywydd, Mrs Mair Lewis, un o'r aelodau, sef Mrs Mary Thomas, Tŷ Clyd, ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.



Yna, aeth ymlaen i gyflwyno ein siaradwraig wadd, sef Mrs Siân Jones, Caergywydd. Yn ogystal â bod yn wraig fferm brysur a mam i dri o blant, mae Siân, sy'n ferch i Mrs Ray Evans, un arall o aelodau'r gangen, wedi bod yn gweithio fel cynorthwyydd ymchwil yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol Aberystwyth, ers dros chwarter canrif. Testun ei sgwrs oedd 'O blanhigion i gynhyrchion', ac amlinellodd ei gwaith yn cydweithio â chwmni BEACON ar amrywiol gynlluniau i ailddefnyddio neu ailgylchu deunydd o blanhigion yn gynhyrchion defnyddiol newydd. Nod BEACON yw helpu busnesau Cymru a datblygu bio-economi Cymru, er enghraifft, drwy gynhyrchu bioblastigion a deunydd pacio bio-sail o fiomas, a defnyddio planhigion yn brif ffynhonnell ar gyfer tanwydd, ffibr a chemegolion. Bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu at ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau gwastraff a brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

Yn dilyn y sgwrs, cafwyd trafodaeth fywiog ar ein cyfrifoldeb ninnau i gynyddu ein hymdrechion i leihau gwastraff ac ailgylchu mwy.

Enillydd y raffl oedd Mrs Gaenor Jones, a pharatowyd paned i bawb gan Mrs Lila Piette a Mrs Marian Beech Hughes.



**Cyfeillach Capel Noddfa -** Cafwyd myfyrdod diddorol a gwerthfawr ar y thema "Dwylo" gan Hywel Roberts yng nghyfeillach Mis Ionawr.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Ionawr 16 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gyda'r cadeirydd Richard Edwards yn y gadair. Croesawodd bawb i gyfarfod cyntaf 2020 a dymunodd Blwydddyn Newydd Dda iddynt. Roedd yna 7 o gynghorwyr cymuned yn bresennol a hefyd y Cynghorydd Sir Rhodri Davies.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Sarah Hughes.


Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf - sef mis Tachwedd 2019 fel rhai cywir. Roedd y Cyngor wedi derbyn ceisiadau am arian oddi wrth rhai mudiadau lleol ac eraill. Cafodd rhain eu trafod yn y cyfarfod. Rhannwyd cyfanswm o £1,350 rhwng y gwahanol fudiadau.

Fel y gwyddoch mae yna 5 diffiblwr yng nghymuned Melindwr ac mae y Cyngor wrthi ynghyd a Calonnau Cymru yn ceisio trefnu hyfforddiant ar hyn o bryd.

Mae yna sedd wag ar y Cyngor; mae angen rhywun i gynrychioli ardal Goginan. Os oes gan rhywun o'r gymuned ddiddordeb i fod yn gynghorydd bro cysylltwch â'r clerc (Lynne B Davies, Glasfryn, Capel Bangor) neu un o'r Cynghorwyr am ragor o wybodaeth.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Chwefror 20fed am 7.30yh yn Neuadd Capel Bangor.

**THEATR BARA CAWS**



yn cyflwyno

**Draenen Ddu**

cyfieithiad **Angharad Tomos**
o ddrama Charley Miles

Daw'r teitl o sgwrs rhwng dau gymeriad am y ddraenen ddu sy'n blanhigyn tu hwnt o anodd cael gwared ohono fo. Mae nhw'n trafod sut mae'r hyn sy'n ymddangos fel dau blanhigyn ar yr wyneb yn tarddu o'r un lle, a bron yn amhosib ei ddadwreiddio. A dyma un o broblemau dwysaf cefn gwlad heddiw.

Ddylen ni aros neu adael? Datblygu neu warchod? Beth ddaw o'n cymunedau ni, a chyfrifoldeb pwy yw eu parhad? Hen, hen thema sydd yma, ond mae'n cael ei chyflwyno i genhedlaeth newydd mewn modd annwyl, doniol a dirdynnol.

Y ddau yn y ddrama yw'r plant cyntaf sy'n cael eu geni yn y pentref ers ugain mlynedd. Wrth iddynt dyfu mae'r cyfrifoldeb yn disgyn ar eu hysgwyddau nhw. Mae Hi yn gadael, a'n dod yn ôl o bryd i'w gilydd. Mae O yn aros, a'n gweithio ar y fferm. Wrth iddynt dyfu'n hŷn, mae nhw'n cwrdd yn achlysurol – amser angladd, priodas neu dros y Dolig. Yn ei dychymyg Hi, mae bro ei phlentyndod yn aros. Iddo Fo, mae'n dyst i'r newid yn ddyddiol. Mae'r hen wynebau'n marw, a rhai dieithr yn dod yn eu lle. Mae sawl tŷ ar werth, tai haf yn britho'r ardal, ac mae enwau ffermydd a chaeau dan fygythiad.

**Yda chi'n gwybod am enwau lleol sydd wedi eu newid yn eich cymuned chi? Yda chi wedi gorfod cwffio dros yr hawl i wrthod? Fasa ni wrth ein boddau tasa chi'n gyrru enghreifftiau i ni gael cynnwys faint fedrwn ni yn y rhaglen.**

Gyrrwch at betsan@theatrbaracaws.com a diolch rhag blaen am gyfrannu.

Taith o amgylch cymunedau Cymru rhwng Mai 12 – Mehefin 6 , 2020.

**Cast**: Rhian Blythe a Rhys ap Trefor

Perfformiad yn Neuadd Tal-y-bont ar Fehefin 2

# Meirion Appleton
## Tywysydd 2020



Meirion Appleton, yr hyfforddwr a'r trefnydd pêl-droed fydd Tywysydd Parêd Gŵyl Dewi Aberystwyth a gynhelir ar ddydd **Sadwrn 29 Chwefror 2020.** Mae Meirion yn adnabyddus i bobl y dre a Chymru am reoli rhai o'n clybiau pêl-droed amlycaf gan gynnwys Tref Aberystwyth gan ennill Cwpan Cymru gyda Bangor. Mae hefyd yn adnabyddus fel un sydd wedi hyrwyddo'r Gymraeg trwy gydol ei yrfa ym myd y bêl.

Rhoddir braint 'Tywysydd' ym mhob gorymdaith Gŵyl Dewi ers ei sefydlu yn 2013 a bydd y Tywysydd yn arwain y Parêd drwy dref Aberystwyth. Mae'n arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad cymuned Aberystwyth i berson neu bersonau lleol sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig i iaith a diwylliant Cymru.

Magwyd Meirion ar fferm Tafarn-crug-isaf a mynychodd Ysgol Gynradd Capel Seion ac yna Ysgol Uwchradd Dinas, Aberystwyth. Mae wedi gweithio fel mecanic, gwerthwr peiriannau i ffermwyr Ceredigion yn llyfrgell y sir cyn mynd i fyd busnes a sefydlu Canolfan Chwaraeon a chwmni Ffigar.

Dechreuodd ei yrfa pêl-droed yn hyfforddi timau yng nghynghrair iau Aberystwyth yn yr 1970au. Daeth yn Reolwr CPd Tref Aberystwyth rhwng 1981-90 ac yna rhwng 1995-99. Enillodd Gwpan Cymru fel Rheolwr CPd Dinas Bangor yn nhymor 1999-2000. Mae wedi gweithio i ymddiriedolaeth pêl-droed Cymru mewn perthynas â CPd Tref Aberystwyth a Chynghrair Ieuenctid y dref ond mae ei ddylanwad ar ddatblygiad pêl-droed i'w weld ym mhob cwr o Gymru. Wrth wneud hynny cariodd gydag ef ei gariad at Gymru a pharch tuag at yr iaith Gymraeg. Mae bellach yn byw yn Llanarth gyda'i wraig Gret. Mae'n dad i Gari a Ffion ac yn dad-cu i Tomos, Elin a Lleucu sy'n byw yn lleol ac i blant Ffion, Siôn a Dylan sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Llundain. Bydd yr wyrion yn cerdded gydag ef yn y Parêd.

Meddai Siôn Jobbins, Cadeirydd y Parêd,

"Rydym yn hynod falch i Meirion Appleton dderbyn ein cais i fod yn Dywysydd eleni. Mae Meirion wedi sicrhau bod y Gymraeg wastad yn cael lle teilwng ym myd pêl-droed yn lleol ac yn genedlaethol. Er bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn amlwg iawn yn ei chefnogaeth a'i defnydd o'r Gymraeg heddiw, nid dyna oedd yr agwedd nôl yn yr 1980au a 90au. Roedd unigolion a sefydliadau yn bryderus, neu weithiau'n wrthwynebus, o ddefnyddio'r Gymraeg yn swyddogol neu ar lafar. Yn y cyfnod hwn roedd Meirion wastad yn awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg a rhoi bri iddi a'i wneud yn iaith naturiol yn y gymuned bêl-droed. Rydym hefyd yn diolch i Meirion am ei gyfraniad fel gŵr busnes i'r dref – ef yw sefydlydd y siop Ffigar lle mae cynifer o glybiau chwaraeon lleol yn cynhyrchu eu crysau. Mae'r cwmni yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth farchnata a rheolwr y cwmni bellach yw Gari, mab Meirion," meddai Siôn Jobbins

Meddai Meirion:

"Bydd arwain y Parêd yn fraint a phleser. Roedd yn syrpreis hyfryd ac annisgwyl. Mae'n anferth o anrhydedd. Rwy'n cofio cerdded o Gapel Seion i Aberystwyth lawer gwaith i wylio gemau yn yr 1950au. Fy mreuddwyd oedd bod yn Hyfforddwr y clwb bryd hynny – ac roedd yn anrhydedd cael y fraint honno. Doeddwn i byth yn meddwl y baswn i'n cael yr anrhydedd yma o fod y Tywsydd ar ddydd gŵyl Dewi. Mae Aberystwyth a'r iaith yn meddwl llawer i fi," meddai Meirion.

**Llwybr Newydd**

Cynhelir Parêd 2020 ar ddydd Sadwrn 29 Chwefror. Bydd yn dilyn yr llwybr ychydig yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol – dechrau o Gloc y Dre i waelod y Stryd Fawr, ac yna troi i'r chwith ar gornel Banc Barclays am Ffordd y Môr a syth am Lys-y-Brenin. Bydd top y rhannau o Stryd y Baddon a Ffordd y Môr sy'n ffinio â Llys y Brenin ar gau i gerbydau am gyfnod y Seremoni.

**Noddwyr**

Mae'r trefnwyr yn hynod ddiolchgar am nawdd – Cyngor Tref Aberystwyth am eu nawdd hael a Chlwb Cinio Aberystwyth am eu nawdd a chymorth.

**Tywyswyr Blaenorol**

Mae Meirion yn dilyn n yn ôl traed Dilys Mildon (2019), perchennog bwyty enwog Gannet's; yr awdur, cyhoeddwr a gweithredwr, Ned Thomas (2018); y diddanwr a'r codwr arian Glan Davies (2017); yr artist Mary Lloyd-Jones (2016); yr awdur a'r cyn-brifathro Gerald Morgan (2015); sylfaenwyr busnes Siop y Pethe, Megan a Gwilym Tudur (2014) a'r cerddor, awdur a chynhyrchydd teledu, Dr Meredydd Evans (2013). Fel Tywysydd bydd Meirion yn gwisgo sash hardd a wnaed yn unswydd i'r Parêd gan Caroline Goodband o'r Borth ac sy'n cynnwys enwau cyn dywyswyr. Yn dilyn y traddodiad o Wlad y Basg, caiff Meirion hefyd rodd o ffon gerdded wedi ei gerfio gan Hywel Evans of Gapel Dewi.

**Gellir dilyn @GwylDewiAber**



# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Fawrth 30 Ionawr yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Meinir Lowry. Dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb, a chroesawodd y Cyng Vernon Jones yn ôl wedi cyfnod o salwch. Llongyfarchwyd y Cyng Tom Hughes ar lwyddiant ei wyres Lois Jones yng nghystadlaethau siarad cyhoeddus Clybiau Ffermwyr Ieuainc Ceredigion.

Noson arferol y Cyngor i drafod materion ariannol oedd hon, a derbyniwyd manylion Cyllideb 2020-2021 gan y clerc. Wedi peth trafod, cytunwyd ar y praesept am 2020-2021 fel a ganlyn ar sail sylfaen Treth y Cyngor £792.16, hynny yn werth £19,000 - £23.98 am annedd Band D.

Aethpwyd i ystyried a phenderfynu ar grantiau/rhoddion i elusennau a wnaeth gais am gymorth ariannol. Fel a ganlyn – Ffrindiau Cartref Tregerddan £500, Y Tincer £600, Cymdeithas Maes Chwarae £600, Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre £600, Mynwent y Garn £550, Mynwent Noddfa £350, Cylch Meithrin Rhydypennau £500, Ambiwlans Awyr Cymru £300, Neuadd Rhydypennau £3,300, Sioe Rhydypennau £250. A gawn ni atgoffa elusennau eraill sydd wedi derbyn cefnogaeth yn y gorffennol, bod yn rhaid iddynt wneud cais yn flynyddol a hefyd cynnwys copi o'r mantolen gyfredol. Nid manna yn disgyn yw'r rhoddion hyn.

Wrth edrych ar restr ein gwariant, sylwer y bydd Ysgol Rhydypennau yn derbyn £5,000. Yr hyn a gytunwyd arno llynedd, ac a ddarparwyd ar ei gyfer yn ein praesept a'n cyllideb. Hefyd y £1,000 i'r Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol (dros gyfnod yr Eisteddfod yng Ngheredigion).

Materion yn codi o gyfarfod Tachwedd. Adroddodd y Cyng Paul Hinge fod cynllun yr orsaf ar y rheiliau a gobeithir agor yr orsaf tua diwedd yr haf, bydd angen adeiladu is-orsaf i'r gwaith trydan yn ardal yr orsaf. Arafwyd pethau yn ardal y gyfnewidfa yn ystod y cwter waith agoriadol gan fod rhyw archeolegwr wedi tybied ei bod o ddiddordeb archeolegol sensitif. Ond olion byddin y Tiriogaethwyr oedd yn gwersylla yma adeg y Rhyfel Byd Cyntaf oedd wedi twyllo'r gwyr mawr!

Y Goeden Nadolig. Deallir bod canmol mawr yn gyffredinol, ond anogir y trefnwyr i geisio gwneud gwell trefniadau yn casglu at y digwyddiad y flwyddyn nesaf. £300 oedd cyfraniad Cyngor Tirymynach.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cynghorydd Hinge bod llwybr ben lôn Dolgau/Dolau Rhydypennau yn parhau yn y bibell gobeithio y flwyddyn ariannol nesaf. Pan gwblheir y llwybrau, bydd pobl Dolau yn medru cerdded i Gogerddan, ac ymlaen ar y llwybr newydd i Benrhyn-coch (at y fynedfa i'r maes chwarae), ac yna cerdded ymlaen ar y ffordd i sgwâr Pen-cwm a lawr ffordd Rhydymangwyn at gyswllt ffordd y Dolau, tu ôl i Bryngwynmawr. Rhywbeth i edrych ymlaen ato! Dywedodd bod problem baw cŵn yn rhemp drwy'r pentref, a bod angen anfon llythyr i Adran Iechyd ac Amgylchedd y Cyngor Sir i ofyn am flychau pwrpasol i'w gosod yn y mannau priodol. Eglurodd fel y gwna bob blwyddyn oblygiadau treth y Cyngor Sir a'r rhesymau am y cynnydd. Eglurodd hefyd pam y bu trafferth yn ddiweddar gyda casglu sbwriel o gwmpas yr ardal. Tebyg bod y loriau presennol ond yn medru cario hyn a hyn o bwysau, felly yn gorfod dadlwytho ar ganol ei rownd. Nid oes sicrwydd y daw yr un lori yn ôl i'r un man y diwrnod canlynol!

Ar fater cynllunio dywedodd y Cynghorydd ei fod wedi derbyn manylion am ddymchwel rhai o adeiladau ym Maes Gwyliau Glan y Môr, Clarach. Bydd yn delio â'r cais.

Bydd rhaid i'r Cyngor edrych ar atgyweirio ffens Cae Chwarae Bryncastell. Hefyd am gwmni pwrpasol i godi yr hysbysfwrdd ger wal siop Spar a Llys Iolo. Yn ogystal a pholyn o wneuthuriad pwrpasol i osod y faner ar dir lle y bu o'r blaen ger Afallen Deg. Diolchwyd i'r Clerc, y Parchg Richard Lewis am ei waith yn ystod y flwyddyn ac am ddarparu y materion ariannol mor drylwyr erbyn y noson.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 27 Chwefror.


**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân

01970 820149
07980 687475



GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths

Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com


## LLANDRE

**Brysia wella**
Dymuniadau gorau i Gerwyn Powell, Leacroft, Llandre sydd bellach nôl adref ar ôl treulio rhai wythnosau yn Ysbyty Bron-glais. Brysia wella Gerwyn.



Cneifio olaf Glanfred yn sied Bwlch-y-garreg 1994. O'r chwith i'r dde: John Howells, Becky Long, Erwyd Howells, Dafydd Jenkins, Miles Fletcher, Emyr Wyn Davies, Huw Jones, Eifion Thomas. Diolch i Erwyd Howells am y llun a'r enwau.




**gan Daniel Johnson - ysgogydd Bro360 yng ngogledd Ceredigion**

Shwmai bawb!
Mae sbel fach wedi pasio ers fy ngholofn ddiwetha yn *Y Tincer*, ond mae hi wedi bod yn ddechrau cyffrous iawn i'r flwyddyn ar **BroAber360**. Bues i'n cynnal 'sgrymiau straeon' yn Nhal-y-bont a Chwmystwyth yn ddiweddar - cyfle i gwrdd â phobl leol a thrafod syniadau am y straeon sydd angen sylw yn y bröydd. Os da chi ishe Sgrym Straeon yn eich pentre chi, rhowch floedd!

Ymhlith y straeon diweddar gan bobol o'r fro mae darn gan Lyn Ebenezer i gofio am Dada, ffigwr adnabyddus yn y sir, a cherdd am deimladau Phil Davies, wrth iddo ddisgwyl i Siop y Pentre Tal-y-bont ailagor. Ewch i **broaber360.cymru** i'w mwynhau ac i adael sylwadau. Cofiwch y gallwch 'ddiolch' am stori hefyd, drwy bwyso'r botwm!

Ac i mewn i'r Gwanwyn a ni. Cyfnod pan yw gweithgarwch yn ein bröydd yn eu hanterth, yn enwedig gyda Gŵyl Ddewi'n agosáu. Oes 'da chi ddigwyddiad chi ishe rhoi sylw î? Mae croeso chi ddefnyddio calendr digidol y wefan - y lle newydd i grynhoi holl ddigwyddiadau gogledd y sir.

ewch i BroAber360.cymru crëwch gyfri trwy bwyso 'Ymuno' a dilyn y cyfarwyddiadau ewch i 'Creu > Digwyddiad'.

Os oes gennych syniad am stori, neu os hoffech drafod y wefan neu gael cyngor, byddaf mewn caffis lleol bob diwrnod – cadwch lygad mas am bosteri'n eich pentref i weld yr amserlen, neu cysylltwch ar daniel@bro360.cymru neu 01570 423529.

Byddwn hefyd yn cynnal sesiwn syniadau ar **nos Fawrth 25 Chwefror yn Arad Goch**, lle byddwn yn cynllunio lansiad swyddogol eich gwefan! Croeso cynnes i bawb.

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Urdd y Gymuned**
Mae y mis diwethaf wedi bod yn un prysur iawn; cynhaliwyd ein cinio blynyddol yn Nhafarn yr Half Way a chafwyd noson ddymunol iawn. Roedd tua deg ar hugain yn bresennol a chafwyd pryd blasus iawn. Cyhoeddwyd y fendith gan Mike Maloney a diolchodd Gill Fathers i'r Halfway am noson hyfryd.

Cynhaliwyd noson o gaws a gwin wedi ei threfnu gan Mike a Lorraine Maloney pryd y daeth dros ugain o bobl ynghyd. Noson o gymdeithasu rhagorol a chyfle i ddod i adnabod newydd ddyfodiaid yn y gymuned. Cynhaliwyd bore coffi yn y Ganolfan Groeso a chafwyd cyfle i edrych ar hen luniau a rhannu atgofion.

Mae Alice ac Elen hefyd yn gobeithio sefydlu Clwb i bobl ifanc, bydd mwy o fanylion ar dudalen Facebook Urdd y Gymuned.

**Hanesydd prysur**
Bu Peter Lord yn brysur eto – a newydd ei gyhoeddi mae llyfr ganddo i gydfynd ag arddangosfa a gynhelir yn Oriel Mon o waith yr arlunydd William Roos (1808-1878) arlunydd cynhyrchiol a anwyd yn Amlwch. Mae nifer o'i luniau yn eiddo i'r Llyfrgell Genedlaethol. Bydd yr arddangosfa I'w gweld yn Llangefni tan Gorffennaf 5ed.



Llyn o niwl yng Nghwmrheidol dydd Iau 23 Ionawr. Llun: Elen Howells

MAE'R EISTEDDFOD YN DOD!

DANGOSWCH EICH CEFNOGAETH GYDA HWDI NEU GRYS-T!



Meintiau plant ac oedolion ar gael mewn gwyn, llwyd neu las tywyll

Cysylltwch â
Nia Wyn Davies
niawynmaesglas@gmail.com
07968 223 653

## MADOG

**Oedfaon Madog**
**2.00**
*Chwefror*
23 Rhidian Griffiths

*Mawrth*
1 Bugail
8 Elwyn Pryse
15 Goronwy P. Owen
22 Bugail
29 10.00 Unedig ym Mhen-llwyn

## GOGINAN

**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan a dymuniadau gorau i'r Parchg Ifan Mason Davies a'i wraig Anne am wellhad buan a llwyr ar ôl ei ddamwain modur yn ddiweddar.

## DÔL-Y-BONT

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar John Norrington-Davies, The Manse, fu farw yn 93 oed ar 2il o Chwefror. Roedd yn gyn ddarlithydd hŷn yn Adran Gwyddorau Amaethyddol, Coleg Prifysgol Cynru, Aberystwyth. Cynhelir gwasanaeth cyhoeddus dydd Mawrth 18 Chwefror yn Eglwys St Matthew, Y Borth. Derbynir rhoddion er cof tuag at yr Eglwys d/o Gwyn Evans.

## DOLAU

**Ymddeoliad hapus**
Dymunwn yn dda i'r Arglwydd Elystan-Morgan. Cyhoeddwyd ganol Chwefror ei fod yn ymddeol o Dŷ'r Arglwyddi


**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Colofn Enwau Lleoedd

Mae adfeilion lluest *Bwlchstyllen* i'w gweld uwchlaw Llyn Craig y Pistyll, rhwng pentref Bont-goch a chronfa Nant-y-moch. Defnyddid yr enw hefyd ar un adeg i gyfeirio at waith mwyn oedd wedi ei leoli ar y llethr y tu cefn i'r lluest.

Digwydd y cofnod cynharaf o'r enw yn un o weithredoedd Stad Gogerddan (hen siediwl, rhif 131) yn 1620/1 yn y ffurf *Ty-yn-y-bwlch-stullen*. Gollyngwyd rhan gyntaf yr enw, *ty'n* neu *tyddyn*, wedi hynny, gan adael y ffurf seml *Bwlchstyllen*.

Mapiwyd y lluest tua diwedd y ddeunawfed ganrif gan Stad Gogerddan wrth iddi wneud arolwg manwl o'i thiroedd, ac mae'r map llawysgrif hwnnw i'w weld yng nghasgliad mapiau'r Llyfrgell Genedlaethol.




**Maps of the Gogerthan Estate in the several counties of Cardigan and Montgomery, cyfrol ii. (http://hdl.handle.net/10107/1445837) t.47, trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

Cyfuniad yw'r enw o'r ddwy elfen *bwlch* 'hafn, agoriad rhwng dau fynydd' ac *(y)styllen* 'astell, planc'. Y *bwlch* dan sylw yw'r un y tu cefn i'r lluest y gellir croesi drwyddo i Gors y Garreg, un o ganghennau cronfa Nant-y-moch, ond nid yw arwyddocâd yr elfen *(y)styllen* mor amlwg. Fy nheimlad i yw mai *(y)styllen* yn yr ystyr 'silff neu lwyfan' sydd yma, a'i fod yn cyfeirio at y trwyn o dir sy'n ymestyn tua'r gorllewin o *Fwlchstyllen*. Dyma'r trwyn hir gwastad o borfa las sydd i'w weld yn y llun, yn cyferbynnu â hesg crin y rhostir o'i amgylch.




Tebyg mai'r un ystyr sydd i'r enw *Styllen* yn ardal Y Parc ger Y Bala. *Cystyllen* yw'r ffurf a gofnodir mewn hen ddogfennau, a gallasai hynny fod yn gywasgiad o *Cae Ystyllen*. Erbyn heddiw, fe'i hystumiwyd i roi'r enw mwy urddasol *Castell Hen*, ond *Styllen* yw'r ffurf sy'n parhau ar lafar.

Gellir cymharu *Bwlchstyllen* hefyd â *Rhostyllen* rhwng Rhosllannerchrugog a Wrecsam; *Ystyllen*, yn Llanaber, Meirionnydd; a *Phantystyllen* ar lan ogleddol afon Dulas rhwng Forge ag Aberhosan, sir Drefaldwyn.

**Angharad Fychan**
**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**

www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

# Ffatri Spillers 5 Mehefin 1956





Rhestr enwau llun trip Bibbys 1956

1. Tom Lloyd Davies, Tŷ'n-cae
2. ?
3. Dan Mason, Bryngwyn Mawr
4. Hywel James, Bryngwyn Canol
5. Handel Morgan, Moelgolomen
6. Johnny Jones, Tŷ-hen
7. Ieu Evans, Cwm-cae
8. John Breeze, Glan-fred
9. Jack Ballantine, Clarach
10. Tom Hughes, Pantypeiran
11. Wyn Thomas, Cerrig-mawr
12. Gyrrwr bws
13. Henry Davies, Rhyd-hir
14. Aelod o staff Bibbys
15. Tegwyn Thomas, Cwm-glo
16. Morgan Morgan, Moelgolomen
17. Glyn Morgan, Tŷ'n-rhos
18. John Davies, Dôlcletwr
19. Gwyn Jones, Tan-yr-allt
20. Dei Davies, Troedrhiwfedwen
21. Bob Williams, Pen-wern
22. Gwyn Royle, Felin-fach
23. David Jones, Tŷ-hen
24. Gwilym Jenkins, Tŷ'n-graig
25. Humphrey Roberts, Erglodd
26. Eirwyn Jones, Ynystudur
27. Geraint Evans, Llawrcwm-bach
28. Harold Jones, gyrrwr bws
29. Morris James, sadler
30. Johnny Owen, Pantffynnon
31. Ifor Mason, Bryngwyn Mawr
32. Cecil Davies, Maesnewydd
33. Arwel Owen, Birkenhead Street
34. George West, Moelgolomen
35. John Morris Jones, Bwlchyddwyallt
36. Stanley Morgan, Tyrrell Place
37. Jim Griffiths, Dôlcletwr
38. John Jenkins, Llwynsguborwen
39. John Jenkins, Glanyrafon
40. Ken Evans, Coed Gruffydd
41. Geraint Jones, Tŷ'n-cae
42. Trefor Jones, Cwm-cae
43. Emyr Davies, Llety Ifan Hen
44. Lewis Jones, Ynys-hir
45. Harry Jones, Bwlchyddwyallt
46. Elwyn Jones, Garth, Penrhyn-coch
47. Hywel Howard, Glan-fred
48. Nesta Evans, Taliesin
49. Judith Williams (Coed Gruffydd)
50. Hannah Jones, Fferm Glandyfi
51. Rosalind Edwards, Bont-goch
52. ?
53. Gloria Williams, Tŷ'nffynnon
54. Ann Humphreys, Taliesin
55. Sian Evans, Tai-ffordd-fawr
56. May Royle, Felin-fach
57. Elizabeth Royle, Felin-fach
58. Gwyneth Owen, Pantffynnon
59. Emrys Humphreys, Taliesin
60. D.J. Thomas (troi) Tal-y-bont
61. David Williams, Bibbys
62. Eluned Morgan, Tŷ'n-rhos
63. Margaret Jenkins, Tŷ'n-graig
64. Ann Davies, Central Stores
65. Menna Davies, Llety Ifan Hen
66. Buddug Mason, Bryngwyn Mawr
67. Dei Davies, Caffi Tal-y-bont
68. David Wyn Edwards, Argoed
69. William John Jenkins, Bibbys, Penrhyngerwin
70. ?

**Diolch i Beryl Hughes, am fenthyg y llun gwreiddiol a Ken Evans, Coed-gruffydd a Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail, ac amryw eraill am ddatrys yr enwau. Diolch arbennig i Edgar Morgan am roi rhifau ar y llun ac am deipio'r enwau.**

## CLARACH / LLANGORWEN

**Genedigaeth** – Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sara ac Eifion Jenkins, Wileiriog Fach, ar enedigaeth merch - Lowri Menna - ar 21 Ionawr; chwaer fach i Elinor a Leusa Jenkins.




## Ysgol Penweddig

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Penweddig aeth i gae isaf Hwlffordd ar Ionawr 28ain i gynrychioli Ceredigion a Phenweddig! Y tywydd, gwynt cryf ac oer a'r mwd yn sicrhau sialens i bawb! Pob un ohonynt yn rhoi o'u gorau. Llongyfarchiadau anferth i Ana Joyce (Capel Bangor) am ddod yn 2il a Steffan Gillies (Penrhyn-coch) am ddod yn 7fed. Bydd y ddau ohonynt nawr yn cynrychioli Dyfed yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Cymru. Pob hwyl iddynt!!






# AMSERLEN NEWYDD S4C

S4C



## Amserlen Newydd S4C

### Mae S4C yn lawnsio amserlen newydd sbon – eich amserlen chi.

Rydyn ni wedi trafod a gwrando ar farn ein gwylwyr ac mae'r amserlen wedi ei llunio er mwyn cysoni rhaglenni newyddion ac operâu sebon, a chynnig cyfresi newydd cyffrous.

O 24 Chwefror ymlaen bydd modd i chi fwynhau:

- Newyddion nos Lun i Gwener am 7.30
- Pobol y Cwm nos Lun i Iau am 8.00 gyda rhifyn estynedig ar nos Fercher
- Rownd a Rownd nos Fawrth a Iau am 8.25
- Ffermio yn symud i 9.00 ar nos Lun
- Cyfresi cyfarwydd a newydd am 9.00 o nos Lun i nos Iau gan ddechrau gyda Corau Rhys Meirion, Ysgol ni: Maesincla, Cynefin a Jonathan.
- Chwaraeon byw ar nos Wener
- Rhaglen ychwanegol o Heno yn fyw ar Nos Sadwrn am 7.30 (gan ddechrau ar 8 Chwefror)

Wrth gysoni ein rhaglenni, rydym wedi gwneud y dewis yn hawdd i chi.

**Mwynhewch yr arlwy!**

# Ysgol Penrhyn-coch











**Gwersyll yr Urdd Llangrannog**
Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 ar drip preswyl i wersyll yr Urdd Llangrannog. Cawsant hwyl wrth fynd ar y beiciau cwad, trampolîn a saethyddiaeth, ymhlith gweithgareddau eraill. Diolch i'r Urdd am yr hwyl a sbri.

**Cystadleuaeth stori Nadolig y Tincer.**
Llongyfarchiadau mawr i'n storïwyr ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth ysgrifennu stori y Tincer. Yn fuddugol oedd Siân ac yn drydydd oedd Gwen. Campus!

**Cystadleuaeth stori Nadolig bl. 3 a 4 yr Ysgol**
Da iawn i Cayden ar oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth ysgrifennu stori Nadolig i flwyddyn 3 a 4 yn yr ysgol. Diolch i Mrs. B. Jones am feirniadu. Gwych!

**Ffeithiau'r dydd ar drydar**
Mae'r Cyfnod Sylfaen wrthi y tymor hyn yn dysgu am ddinosoriaid. Gwerth i chi droi mewn i dudalen trydar yr ysgol i chithau hefyd ddysgu ffeithiau diddorol amdanynt. Doeddem ni ddim yn sylweddoli pa mor hir oedd gwddf Diplodocws - 9m!

**Disgo Dwynwen**
Wel am ddawnsio dawnus a gafwyd yn ein disgo i ddathlu Dydd Santes Dwynwen fel rhan o'n gweithgareddau Siarter Iaith. Galwodd dau ymwelydd pwysig i'r disgo hefyd - sef Seren a Sbarc! Am gyffrous!

**Cystadleuaeth Rotari Aberystwyth**
Llongyfarchiadau calonog i Osian am ddod i'r brig drwy ysgrifennu cerdd neu stori Saesneg. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Caio a Lleucu am ddod yn ail ac yn drydydd am ysgrifennu yn y Gymraeg yn yr un gystadleuaeth.





**Cwis Dim Clem**
Da iawn i dîm yr ysgol a gymerodd ran yn ail rownd Cwis Dim Clem Cered, yn yr Hwb ym Mhenparcau. Pob lwc iddynt yn y rownd nesaf yn Felin-fach

**Pêl-rwyd**
Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd. Fe wnaeth pawb fwynhau mas draw.

**Wythnos Crefyddau'r Byd**
Cawsom wythnos i ddathlu crefyddau'r byd yn yr ysgol yn ymchwilio am grefyddau gwahanol megis Iddewiaeth, Cristnogaeth, Islam, Sikhaeth, Bwdhaeth a Hindwaeth.

**Gala nofio**
Bu gala nofio Cylch Aberystwyth ar ddiwedd mis Ionawr. Da iawn i bawb a gymerodd ran. Llongyfarchiadau i Zak, Aron a Twm ar eu llwyddiant yn y gala.

## TE GŴYL DDEWI

Yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch

**Dydd Sul Mawrth 1af**
**2.00-4.00**

£5. Plant am ddim
Tocynnau: Garej Tŷ Mawr a Swyddfa'r Post, Penrhyn-coch.
Lluniaeth ysgafn
Adloniant gan blant y fro.

Trefnir gan bwyllgor Trefeurig Eisteddfod 2020

## Ysgol Craig yr Wylfa



**Cymreictod Craig!**
Diwrnod cyntaf tymor y Gwanwyn trefnwyd diwrnod llawn gweithgareddau Cymraeg i'r ysgol gyfan. Daeth Steff a Rhodri o Fenter Iaith Ceredigion mewn i wneud gweithgareddau. Bu Steff yn dysgu plant Cyfnod Allweddol 2 i chwarae'r iwcalili a chyd-ganu cwpwl o ganeuon Cymraeg. Daeth Rhydian a Chloe o Fudiad yr Urdd mewn i wneud gweithgareddau gyda'r plant megis Bingo! a gêmau chwaraeon. Yn ogystal â'r gweithgareddau hwylus, daeth ymwelwyr pwysig iawn i'r Ysgol i ymweld â ni – Seren a Sbarc! Mwynhaodd pawb y diwrnod cyntaf nôl. Diolch i bawb a ddaeth i arwain y gweithgareddau hwylus yma!


**Gala Nofio.**
Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a gymerodd ran yn y Gala Nofio ddiwedd y mis.

**Disgo Dwynwen.**
Prynhawn dydd Gwener, 24ain o Ionawr, cynhaliwyd Disgo Santes Dwynwen i'r plant. Mwynhaodd pawb ddawnsio a gwelwyd sawl symudiad cŵl iawn ar lawr y disco.



## Adolygiad - Awdur lleol

Daniel Davies *Tair rheol anhrefn* - Enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen 2011 Y Lolfa, 2019 272t. £8.95




Nofel draddodiadol glasurol yw hon, ond mewn gwisg gwbl gyfoes. Yn ôl cyfaddefiad yr awdur ei hun, ei hoff storïau antur yw clasuron fel nofel John Buchan, *The Thirty-nine Steps*, a ffilmiau fel clasur Hitchcock, *North by Northwest*. Yr hyn sy'n gwneud *Tair Rheol Anhrefn* yn wahanol yw'r ffaith mai ei chraidd yw masnacheiddiwch a phrynoliaeth. Mae hi'n ymwneud yn uniongyrchol â'r farchnad defnyddwyr sy'n rheoli pob agwedd o'n bywyd.

Yn syml, mae dau wyddonydd wedi darganfod dyfais a allai weddnewid y byd teledu, sef crisial hylifol sy'n creu lluniau cliriach na hyd yn oed y rhai a geir ar sgriniau plasma. Daw hyn i glustiau cwmnïau a allent gael eu heffeithio'n andwyol. Y bwriad felly yw canfod y fformiwla. Y neges yn syml yw: rheolwch ein harferion neu'n dull o wylio ac fe reolwch y byd. Yma, nid y byd mawr y tu allan yn unig gaiff ei fygwth gan gyfalafiaeth. Mae'n bygwth hefyd y Brifysgol lle mae'r ddau wyddonydd yn gweithio.

Strwythur y plot yw taith ar hyd llwybr arfordirol sir Benfro gan un o'r partneriaid i chwilio am y fformiwla a guddiwyd gan y llall. Mae yna gliwiau cyfrwys i'w dilyn. Cyflwynir ni i gymeriadau rhyfedd iawn. A daw'n glir yn fuan iawn nad yw'r un ohonynt, mewn gwirionedd, yr hyn a ymddangosant. Cawn elfennau o'r CIA, MI6 a hyd yn oed Mossad, sef asiantaeth gudd Israel yn eu plith.

Yn ffrâm i'r cyfan mae'r daith. Honno sy'n cynnal ac yn gyrru'r stori yn ei blaen. Ac mae i'r stori fwy o droeon a throellau nag sydd i'r llwybr arfordirol ei hun. Mae hi'n symud mor gyflym fel bod prin amser i dynnu anadl.

Eto i gyd, er gwaethaf holl gymhlethdod y plot mae'r rysáit yn un gwbl syml: stori dda, cymeriadau cig a gwaed, dyfeisgarwch ac, yn bwysicach na dim, pinsied helaeth o hiwmor. Dengys yr awdur wybodaeth helaeth o faterion y tu allan i anghenion y plot ond ni wna unwaith syrthio i'r fagl o fod yn orglyfar.

Dihangdod yw'r gair addas, mae'n debyg. Ffuglen, yng ngwir ystyr y gair. Dyma'r nofel ddelfrydol ar gyfer ffoi o'r byd go iawn. Ond tybed? Onid nofel am y byd go iawn ydi hi? Ynddi mae llywodraethau'n llawforynion i'r cwmnïau masnachol anferth. A phan gofiwch mai Rupert Murdoch yw'r person mwyaf pwerus yn y byd, a yw'r syniad yn un mor anodd â hynny i'w dderbyn?


**Lyn Ebenezer**

Adolygiad oddi ar *www.gwales.com*, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

*Trefnwyr Angladdau*
***C T Evans***
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

# Adolygiad




Alan Llwyd *Byd Gwynn: Cofiant T. Gwynn Jones, 1871–1949*
Cyhoeddiadau Barddas, 2019. 528 tt.
£19.95.

O glywed bod y rhyfeddol Alan Llwyd—awdur cofiannau i Hedd Wyn, Kate Roberts, R. Williams Parry, Waldo Williams a Gwenallt eisoes—yn bwriadu cyhoeddi cofiant i T. Gwynn Jones, fe'm synnwyd braidd. Oni chyhoeddodd David Jenkins—cyn-fyfyriwr i Gwynn—gampwaith o gofiant manwl iddo yn 1973? Tybed a oedd lle i gofiant arall? Ond prin y byddai amheuon felly yn mennu ar ŵr o benderfyniad ac egni Alan. Onid aeth bron hanner canrif heibio ers cyhoeddi'r cofiant cyntaf a bod felly angen goleuo cenhedlaeth newydd ynghylch Gwynn? Oni haeddai gŵr o'i faintioli ef fwy nag un cofiant? Beth bynnag oedd troeon meddwl Alan—a diau fod ei edmygedd mawr o Gwynn Jones yn gymhelliad—y canlyniad fu'r gyfrol hon o fwy na 500 tudalen, dros gan tudalen yn hwy na chyfrol David Jenkins.

Mae'n anorfod fod y ddau gofiannydd wedi defnyddio rhai o'r un ffynonellau. Ond mae gwahaniaeth pendant rhyngddynt hefyd, un mwy sylfaenol na'r gwahaniaeth yn hyd eu cyfrolau. Y prif wahaniaeth yw'r gofod eithriadol hael a rydd Alan Llwyd i eiriau Gwynn Jones ei hunan: prin iawn yw tudalennau'r gyfrol lle na cheir dyfyniad(au) o'i weithiau llenyddol neu ei lytbyrau. Gellid dal bod y dyfynnu weithiau braidd yn annethol ac yn rhy faith ac y byddai'r ymdriniaeth yn dynnach a llwybr y darllenydd yn llai llafurus o docio'r gyfrol rai degau o dudalennau. Eto, gellir amddiffyn y dull (a welir yng nghofiannau eraill Alan): diau y byddai Alan yn dadlau ei fod yn dyfnhau amgyffred y darllenydd o athrylith ac o amrywiaeth cwbl ryfeddol gwaith Gwynn drwy ei dynnu ato'n gyson o dudalen i dudalen. Ac mae'r dull hefyd yn hwyluso arfer Alan o gyflwyno sylwadau beirniadol—rhai estynedig ar dro—ar weithiau unigol, boed y rheiny'n gerddi neu'n weithiau rhyddiaith. Enghreifftiau gwiw o hynny yw ei sylwadau ar y gerdd fawr 'Madog' a'r bennod olaf lle traetha'n feirniadol ar gerddi *Y Dwymyn*. Nod angen y gwaith—fel cofiannau eraill Alan—yw ei fod i gryn raddau yn gofiant llenyddol-ddeongliadol. Nid cofiannydd confensiynol mo Alan.

Fe fydd rhannau arbennig o'r gyfrol yn aros yn fy nghof. Rhagorol yw'r penodau cyntaf sy'n darlunio cefndir cynnar Gwynn ac sy'n llwyddo drwy ddyfynnu i ddangos ei addewid lenyddol rhyfeddol yn llanc. Yn sgil profiad ei deulu—collodd ei dad denantiaeth dwy fferm oherwydd dichell meistri tir Toriaidd—plannwyd gwreiddiau radicaliaeth Gwynn yn gadarn. Os mynnir amgyffred meddylfryd ac ysbryd mudiad byrhoedlog, ond pwysig, 'Cymru Fydd' darllener ail bennod y gyfrol sy'n ymdrin â chyfnod Gwynn fel cyw newyddiadurwr ar *Y Faner* a'r *Cymro*, pan oedd Emrys ap Iwan a Thomas Gee yn ddylanwadau arno. Un arall o'r uchafbwyntiau i mi oedd yr wythfed bennod 'Madog a Mabon' ar flynyddoedd y Rhyfel Fawr, cyfnod anesmwyth i'r heddychwr Gwynn yn hen dref fach filain Brydeinllyd Aberystwyth. Gwna Alan Llwyd gryn ddefnydd o ddyddiadur Gwynn 'The Diary of a Pacifist'—dyddiadur Saesneg yn rhyfedd ddigon—i gyfleu ing a thensiynau y blynyddoedd dreng hyn, ond nyddir sawl edefyn arall hefyd yn gelfydd i lunio gwead cyfoethog y bennod hon.

Yr oedd Gwynn yn llythyrwr toreithiog ac mae ei lythyrau ymhlith ffynonellau pwysicaf y gyfrol (ac, yn aml iawn, yn arddangos yr un ddawn greadigol â'i weithiau llenyddol). Gwna Alan ddefnydd helaeth o'i ohebiaeth hirfaith ag E. Morgan Humphreys, hen gyfaill ers dyddiau'r ddau yn newyddiadurwyr ar *Y Genedl* yng Nghaernarfon yn 1908–09. Mae Gwynn y llythyrwr tra phigog weithiau: un 'na wyddai odid ddim, ond sut i osod llyfr ar silff' oedd John Ballinger, ein Llyfrgellydd Cenedlaethol cyntaf, yn ôl ei was anfoddog (a braidd yn annheg!) o gatalogydd.
Mewn llythyr at gyfaill arall o ddyddiau Caernarfon, Daniel Rees, 'y dyn bach cegog . . . ymhonfawr, anonest a thwyllodrus' oedd ei ddisgrifiad o Lloyd George yn areithio yn Eisteddfod y Gadair Ddu yn Birkenhead yn 1917. Ond datgelir meddyliau dwysach hefyd yn nifer o'r llythyrau.

Yn ddi-ddadl, bendithiwyd Gwynn Jones â dau gofiannydd galluog. Mewn adolygiad byr fel hwn ni ellir gwneud cyfiawnder â chyfoeth cyfrol hir Alan Llwyd. Yn sicr iawn ymdeimlir o'i darllen ag athrylith T. Gwynn Jones, bardd mawr, ie, ond un yr oedd iddo lawer o dannau eraill hefyd, ieithydd, ysgolhaig, cofiannydd, cyfieithydd, beirniad, nofelydd, storïwr: dyma, yn sicr, un o ffigurau mwyaf gwareiddiad Cymraeg yr ugeinfed ganrif. O gofio iddo fyw ym mro'r *Tincer*—yn 'Hafan', Bow Street (1929–44)—lle bu iddo gyfeillion da fel Dewi Morgan a J. T. Rees, gobeithio y bydd darllenwyr i'r gyfrol yn yr ardal. Da gweld i ddau o'n plith, Vernon Jones a Huw Ceiriog, gyfrannu deunydd a gwybodaeth i'r awdur, a bod ffotograffau gan Iestyn Hughes yntau ymhlith darluniau'r gyfrol.

Gruffydd Aled Williams

GWE Cambrian WEB
**Gwefannau Gwych o Gymru**
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
**Cysylltwch Heddiw**
info@cambrianweb.com
**01970 623 906**


**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

Y CRYNWYR
**HOLI AC ADDOLI**
CWRDD CYFRWNG CYMRAEG
Y trydydd Sul o'r mis
Mawrth 15 am 3 pm
TŶ CWRDD Maes Maelor
Penparcau SY23 1SZ
**CROESO CYNNES I BAWB**
Ymholiadau:
01970 612794
medijames22@gmail.com

# Ysgol Rhydypennau














**Ymweliadau**

Ar fore Llun y 10ed o Chwefror, fe deithiodd deunaw o blant blwyddyn 4 i wersyll yr Urdd, Llangrannog i fwynhau deuddydd o ddifyrrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys, merlota, gwib-gartio, saethyddiaeth a nofio. Dychwelodd y plant i'r ysgol b'nawn Mawrth wedi blino'n lân ond wedi mwynhau profiadau'r gwersyll yn fawr iawn.

Aeth plant blwyddyn 5 a 6 i'r Llyfrgell Genedlaethol ar yr 28ain o Ionawr. Yn ystod yr ymweliad cafwyd cyfle i ddysgu ymhellach am hanes cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg, hanes cythryblus Tryweryn a brwydr lwyddiannus Gwynfor Evans i sefydlu sianel Gymraeg i Gymru. Diolch o galon i Rhodri Morgan ac Owain Dafydd am eu cymorth wrth drefnu'r dydd ac yn ystod yr ymweliad.

Diolch yn fawr iawn i griw 'Cwmni Arad Goch' am eu perfformiad campus yn neuadd yr ysgol yn ddiweddar. Drama i blant blwyddyn 5 a 6 oedd dan sylw; 'Tu fewn Tu Fas'. Prif neges y ddrama oedd annog plant i ddefnyddio eu teimladau ac i drafod unrhyw bryderon sy'n eu gofidio o bryd i'w gilydd. Plethwyd dawns a cherddoriaeth gyfoes Gymraeg i hyrwyddo'r neges yn effeithiol iawn. Diolch i Jeremy Turner a'i griw am brynhawn difyr dros ben.

Diolch yn fawr i PC Hannah am rannu negeseuon cymdeithasol hanfodol i blant blwyddyn tri a chwech yn ddiweddar. Mi fydd hi'n dychwelyd cyn hir gyda rhagor o wybodaeth hanfodol i flwyddyn pedwar a phump.

**Llwyddiant a Gorchest.**

**Coginio**

Da iawn i bawb fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth 'Cogurdd'. Cystadleuaeth goginio wedi ei threfnu gan yr Urdd yw 'Cogurdd'. Yn ystod y dasg, bu'n rhaid i'r cystadleuwyr ddilyn resait arbennig, creu prif gwrs i ddau ac wrth gwrs, blesio'r beirniad - sef Susan Rowland - cyn aelod staff y gegin. Llongyfarchiadau i Enid Evans blwyddyn 5 am ennill lle yn y rownd ranbarthol lawr yng ngheginau Ysgol Dyffryn Teifi. Diolch i Susan am feirniadu a diolch i bawb am gystadlu; roedd safon y cynnyrch yn wych!

**Pêl-rwyd**

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-rwyd, Pencampwyr Ceredigion! Enillodd y merched lawr yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog yng nghystadleuaeth rhanbarth y Sir ddiwedd mis Ionawr. Mi fyddant nawr yn cynrychioli Ceredigion yn erbyn y goreuon o weddill Cymru ar yr 17eg o Fai. Pob Lwc ferched!

**Cwis**

Da iawn i Gruffydd Siôn, Reian Morgan, Gwawr Morgan a Jena Curran am gystadlu mor dda yng nghystadleuaeth cwis 'Cered' yn yr Hwb ym Mhenparcau ddechrau'r mis.

**Cerddoriaeth**

Llongyfarchiadau i Grufudd Siôn (bl 6) am ennill cystadleuaeth offerynnol pres dan 12 oed yn y Strafagansa Pres yn yr Hen Goleg ddiwedd fis Ionawr. Campus!

**Gala Cenedlaethol**

Tra bod Gruff yn chwythu, roedd Noa Elias (bl 6) yn cyrraedd ras derfynol y pili pala a'r cymysg unigol yng Ngala Cenedlaethol yr Urdd lawr yn y brifddinas. Fe lwyddodd e hefyd i recordio ei amserau gorau yn y ddau ddull nofio. Gwych!

**Gala'r Cylch**

Da iawn i'r tîm nofio am gystadlu mor wych yn ngala cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddo i orffen yn y tri cyntaf; Tîm cyfnewid Merched bl 3 a 4-Lili Myrddin, Poppie, Haynes, Sophia Scarrott a Gwenno Jones; Tîm cyfnewid Bechgyn blwyddyn 3 a 4, Zac Sweeney, Milo Suggett, Gari Raggett a Ted Elias Jones; Tîm cyfnewid Merched Blwyddyn 5, Lois Jones, Tali Lee McPherson, Caryn James, Efa Hesden Kenny, Freya Jones, Emmie Hinks. Tîm cyfnewid Merched blwyddyn 6, Carys Williams Watkin, Neve Jones, Mari Lloyd Williams, Taylor Evans; Tîm cyfnewid Bechgyn blwyddyn 6-Morus Raggett, Gruffudd Siôn, Reian Morgan a Noa Elias. Ac hefyd i'r unigolion canlynol am ennill eu rasys hwy-Gari Raggett (rhydd), Zac Sweeney-broga Noa Elias-Pili-Pala. Ardderchog!

# Ysgol Pen-llwyn

**Llangrannog**
Diwrnodau ar ôl dychwelyd i'r Ysgol roedd blwyddyn 3 a 4 wedi pacio'u bagiau i fynd i Langrannog. Cawsom amser arbennig gydag amryw o weithgareddau anturus. Hoff weithgareddau'r plant oedd gwibgartio, marchogaeth a beiciau cwad, ond roedd llawer o straeon am saethyddiaeth, wal ddringo, trampolîn a nofio hefyd. Heb sôn am chwaraeon potes a'r disgo! Am brofiad gwych a da iawn i'r plant am fod mor fentrus. Diolch i Miss Pritchard a Miss Jones am fynd gyda nhw.

**Wythnos Crefyddau'r Byd**
Cawsom wythnos o ddysgu am a dathlu crefyddau'r byd ar draws yr Ysgol gyfan. Roedd amryw o weithgareddau creadigol yn yr Ysgol a'r tu allan er mwyn dysgu am beth mae pobl yn gredu a sut maent yn addoli.

**Dydd Santes Dwynwen**
Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau yn y dosbarthiadau i ddathlu Dydd Santes Dwynwen. I orffen y dydd cawsom ddisgo yn Neuadd yr Ysgol lle 'roedd y plant wrth eu boddau yn dawnsio!

**Pêl Rwyd yr Urdd**
Da iawn i'r tîm pêl rwyd am gystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar. Roedd y tîm wedi cyd-weithio'n arbennig o dda ac wedi llwyddo i sgorio ambell gôl. Ar ôl ennill y gêm gyntaf, colli 1, gêm gyfartal ac wedyn colli'r gêm olaf. Roedd y merched yn hapus iawn gyda'u hymdrechion ac yn awyddus iawn i glywed pryd mae'r twrnament nesaf! Diolch i Amelia am fod yn gapten.

**Rhaglen Ysgol Heddychlon**
Diolch yn fawr i Jane a Medi am ddod i gynnal sesiynau bywiog am heddwch. Mae'r plant wedi gwir fwynhau ac roedd yn braf gweld pawb yn cyd-weithio.

**Clwb Codio**
Mae 10 micro:bit wedi cyrraedd yr ysgol ac mae'r dewiniaid digidol a phlant clwb codio wrth eu boddau. Maent yn dysgu sut i godio er mwyn gwneud i'r micro:bit wneud rhywbeth fel dangos neges Dydd Santes Dwynwen Hapus. Bydd y plant yn dysgu sut i wneud sain a golau nesaf.

**Deinosoriaid**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn dysgu am ddeinosoriaid y tymor hwn. Bu llawer o gyffro wrth i ddeinosoriaid bach, ffosiliau ac esgyrn gyrraedd y dosbarth a'r tu allan. Mae'r plant wedi diddori gyda'r gweithgareddau creadigol gan hyd yn oed greu sgerbydau deinosor allan o basta!












**Noson Cawl a Thwmpath**
Byddwn yn cynnal Noson Cawl a Thwmpath yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor ar Nos Wener, Mawrth 20fed. Mae croeso i bawb ymuno â ni. Bydd Erwyd Howells yn arwain y dawnsio a chewch chi gyfle i flasu Cawl Cathy! Cysylltwch â'r Ysgol am fwy o wybodaeth neu cewch chi brynu tocynnau o'r Ysgol neu Dafarn y Maes, Capel Bangor.

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor Llun-Sadwrn*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# Tasg y Tincer

Diolch i: Mabli ap Llywelyn, Capel Madog; Noah Fox, Llanilar; Osian Rhys Jones, Caerffili; Iestyn Jones, Goginan, Hanna Guy, Caerdydd; Ywain Meurig, Penrhyn-coch; Math, Lois a Celt Roberts, Bont-goch. Roedd eich lluniau'n arbennig!


Dy enw di, Iestyn, ddaeth o'r het y tro hwn. Llongyfarchiadau!



**Iestyn**

Ydych chi'n gwybod beth sy'n cael ei ddathlu ar **25 Chwefror**? Mae'n ddydd Mawrth ... ydi hynny'n rhoi cliw? Ry'n ni'n bwyta rhywbeth arbennig ar y diwrnod hwnnw ... ie, pancws neu grempog, wrth gwrs. Dydd Mawrth Ynyd yw'r enw  ar y diwrnod hwn, ac mae'n dod rhyw 6 wythnos cyn y Pasg. Slawer dydd, byddai pawb yn bwyta'u holl fwydydd blasus ar Ddydd Mawrth Ynyd, gan na fydden nhw'n bwyta danteithion tan y Pasg – a dyna pam ry'n ni'n llenwi ein boliau ar Ddydd Mawrth Ynyd o hyd. Dwi wrth fy modd â chrempog ... mmm! Dwi'n siŵr eich bod wedi clywed y rhigwm:

"Modryb Elin Ennog,<br>
os gwelwch chi'n dda ga i grempog?<br>
Cewch chithau de a siwgwr gwyn<br>
a phwdin lond eich ffedog."



Yn fuan wedyn mae gennym ni ŵyl bwysig dros ben i'w dathlu ar **1 Mawrth**, on'd oes – Dydd Gŵyl Dewi! Anfonwch eich llun o'r cogydd gyda'i badell ffrio at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Ebrill 1af.  Ta ta tan toc!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009

*Rhif 426 | Chwefror 2020*